Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch
Advanced Skills Baccalaureate Wales

wjec cbac

CBAC

Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Manyleb

I'w haddysgu o fis Medi 2023
I'w dyfarnu o Haf 2025

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Gwybodaeth am y Cymhwyster

Teitl y Cymhwyster	CBAC Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Lefel 3)
Cod Cymhwyster CBAC	9503
Rhif QiW	C00/4571/8
Oriau Dysgu dan Arweiniad	360
Cyfanswm yr Amser Cymhwyso	540
Grŵp oedran cymeradwy	16-18, 18+
Addysgu am y tro cyntaf	Medi 2023
Ardystio am y tro cyntaf	Haf 2025
Dogfennau cysylltiedig	Pecynnau Asesu i Ymgeiswyr Llawlyfr Gweinyddu (sy'n cael ei gyhoeddi bob blwyddyn)

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer Lefel 3 Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch.

Mae Atodiad C, y golofn Cyrchfan y Dyfodol, rhes 4.6 wedi'i gywiro. Tynnwyd y lliw o gell tasg 2 a'i symud i dasg 1a.	**Tudalen 61**
Mae'r cynlluniau marcio wedi cael eu diweddaru i nodi pa sgil sy'n cael ei asesu.	**Tudalen 19-24, 31-35, 42- 49.**
Mae'r golofn 'dystiolaeth a awgrymir' yn y Prosiect Unigol wedi'i diweddaru i gynnwys cyfeiriad at y Cynllun Prosiect.	**Tudalen 42-43.**

© WJEC CBAC Ltd.

Cynnwys

1. Cyflwyniad 5
1.1. Nodau ac amcanion 5
1.2. Dysgu blaenorol a dilyniant 6
1.3. Cydraddoldeb a mynediad teg 6
2. Datblygu Sgiliau 7
2.1. Pwysigrwydd sgiliau 7
2.2. Y Sgiliau Cyfannol (Deilliannau Dysgu) 7
2.3. Y Sgiliau Mewnblanedig 10
2.4. Datblygu sgiliau mewn cyd-destun 10
3. Cyflwyniad i'r Projectau 12
4. Project Cymuned Fyd-eang 14
Cynllun Marcio 19
5. Project Cyrchfannau'r Dyfodol 25
Cynllun Marcio 31
6. Project Unigol 36
Cynllun Marcio ar gyfer llunio project ymchwil 42
Cynllun marcio ar gyfer hunanwerthuso 49
7. Asesiadau 50
7.1. Pwysoliadau Sgiliau Cyfannol 50
7.2. Y trefniadau ar gyfer asesu'r Projectau 50
8. Gwybodaeth Dechnegol 54
8.1. Cofrestru Canolfannau 54
8.2. Cofrestru 54
8.3. Rheolau Ailsefyll 55
8.4. Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl 56
Atodiad A Geirfa 57
Atodiad B Adroddiad Ymchwil Project Unigol 59
Atodiad C Mapio Sgiliau 61

© WJEC CBAC Ltd.

Crynodeb o'r Asesiad

Mae cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Lefel 3) yn cynnwys tair uned sy'n cael eu galw'n Brojectau. Mae'r pwysoliadau sy'n cael eu nodi isod wedi'u mynegi yn nhermau'r cymhwyster llawn.

Project Cymuned Byd-eang **Asesiad Di-arholiad: tua 50 awr** **25% o'r cymhwyster**	**72 marc: 90 GMU**
Bydd dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol gan ystyried ar yr un pryd faterion byd-eang cymhleth a chymryd rhan mewn camau gweithredu cymunedol lleol (o leiaf 15 awr) i hybu dinasyddiaeth mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru.	
Project Cyrchfannau'r Dyfodol **Asesiad di-arholiad: tua 40 awr** **25% o'r cymhwyster**	**72 marc: 90 GMU**
Bydd dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol gan archwilio ar yr un pryd nodau ar gyfer bywyd, cyflogadwyedd a dinasyddiaeth yn y dyfodol mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru.	
Project Unigol **Asesiad di-arholiad: tua 80 awr** **50% o'r cymhwyster**	**96 marc: 180 GMU**
Bydd dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol gan gynllunio, rheoli a chynnal ar yr un pryd broject ymchwil annibynnol (project ysgrifenedig estynedig neu arteffact).	

Cymhwyster unedol yw hwn sy'n caniatáu ar gyfer elfen o asesu fesul cam. Bydd cyfleoedd asesu ar gael ym mis Ionawr a mis Mai bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd y Project Cymuned Byd-eang a Phroject Cyrchfannau'r Dyfodol ar gael ym mis Mai 2024 (ac ym mis Ionawr a mis Mai bob blwyddyn wedi hynny).

Bydd y Project Unigol ar gael ym mis Ionawr 2025 (ac ym mis Mai a mis Ionawr bob blwyddyn wedi hynny) a bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2025.

© WJEC CBAC Ltd.

1. Cyflwyniad

Mae Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Lefel 3) yn gymhwyster arloesol sy'n annog dysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, gan roi cyfleoedd i ddysgwyr ddethol eu meysydd astudio eu hunain wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau Cynllunio a Threfnu; Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau; Creadigrwydd ac Arloesi; ac Effeithiolrwydd Personol (y 'Sgiliau Cyfannol').

Gan adeiladu ar eu cyflawniadau ar lefel 2, mae'r cymhwyster yn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau, priodoleddau ac ymddygiadau cymhleth ac yn cynnig profiadau sy'n eu galluogi i baratoi'n well ar gyfer eu cyrchfan yn y dyfodol, boed hynny ym maes addysg uwch, prentisiaethau, hyfforddiant neu gyflogaeth. Bydd y sgiliau y maent yn eu datblygu mewn cyd-destunau perthnasol yn eu paratoi at gyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.

Mae'r cymhwyster wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr 16-19 oed sy'n dilyn rhaglenni astudio lefel 3, fel cyfuniad o gymwysterau Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol. Mae'r cymhwyster yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau i gefnogi llwybrau dilyniant.

Mae'n canolbwyntio ar ddysgu cymhwysol h.y. caffael a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy dasgau pwrpasol wedi'u gosod mewn cyd-destunau sy'n berthnasol ac yn gyfredol ac sy'n annog dysgwyr i gymryd rhan mewn prosesau ymgysylltu beirniadol a sifil, ac i ystyried eu llesiant nhw eu hunain a llesiant pobl eraill.

1.1. Nodau ac amcanion

Mae cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn helpu dysgwyr i ddod yn ddinasyddion effeithiol, cyfrifol a gweithgar sy'n barod i gymryd eu lle mewn cymdeithas fyd-eang gynaliadwy ac yn y gweithle drwy wneud y canlynol:

- datblygu eu sgiliau Cynllunio a Threfnu; Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau; Creadigrwydd ac Arloesi; ac Effeithiolrwydd Personol (y 'Sgiliau Cyfannol')
- cefnogi cynnydd o'r Sgiliau Cyfannol a gafodd eu datblygu ar lefel 2
- cefnogi cynnydd tuag at astudiaethau pellach, addysg uwch, prentisiaethau, hyfforddiant a chyflogaeth.

Drwy gwblhau cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, bydd dysgwyr yn:

- datblygu ymhellach eu sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol (y Sgiliau Mewnblanedig)
- dod i werthfawrogi pwysigrwydd y broses o feithrin sgiliau fel agwedd allweddol ar ddysgu gydol oes
- cymryd rhan mewn cyfleoedd gweithgar, creadigol, ac wedi'u harwain gan y dysgwr
- ymholi a meddwl drostynt eu hunain, cynllunio, gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, datrys problemau a myfyrio arnynt a'u gwerthuso
- datblygu blaengaredd, annibyniaeth a gwydnwch
- gweithio'n annibynnol, ymgymryd â chyfrifoldebau a gweithio'n effeithiol gydag eraill.

© WJEC CBAC Ltd.

1.2. Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes unrhyw ofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad at gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon.

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed yn bennaf. Felly, mae'n rhesymol tybio y bydd llawer o ddysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i lefel 2 ac y byddant wedi datblygu sgiliau Cynllunio a Threfnu, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Creadigrwydd ac Arloesi ac Effeithiolrwydd Personol i'r lefel hon. Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyfle i fireinio a datblygu'r sgiliau hyn i lefel uwch.

Mae'r cymhwyster hwn yn gweithredu fel sylfaen addas ar gyfer astudio amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

1.3. Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr astudio'r cymhwyster hwn, beth bynnag fo'i rywedd, cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

Y nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil.

Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei drafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau amrywiaeth eang o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer rhai dysgwyr penodol er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'r asesiadau (er enghraifft, gall ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd.

2. Datblygu Sgiliau

2.1. Pwysigrwydd sgiliau

Mae'r byd yn newid ar gyfradd ddigynsail ac felly hefyd y sgiliau y bydd eu hangen ar bobl ifanc er mwyn iddynt ffynnu yn y byd gwaith yn y dyfodol. O robotiaid i globaleiddio, poblogaeth sy'n heneiddio, trefoli a datblygiad yr economi werdd, bydd swyddi'r dyfodol yn sicr yn wahanol i swyddi heddiw.

Yn ei adroddiad ymchwil *The Future of Skills: Employment In 2030* (Nesta, 2017[1]), tynnodd Nesta sylw at y sgiliau, y galluoedd a'r wybodaeth y bydd galw amdanynt yn 2030. Ochr yn ochr â gwybodaeth a sgiliau yn seiliedig ar bynciau mewn meysydd fel STEM ac ieithoedd tramor, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwyd dsgiliau fel:

- ymwybyddiaeth gymdeithasol, dealltwriaeth o eraill a'r gallu i gydweithio
- gwreiddioldeb a'r gallu i feddwl am nifer o syniadau gwahanol
- y gallu i bennu nodau, gofyn cwestiynau perthnasol a chael adborth wrth i ddysgwyr ddysgu a chymhwyso'r wybodaeth honno mewn ffordd ystyrlon mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn paratoi dysgwyr yng Nghymru i ddiwallu'r anghenion hyn drwy ddatblygu eu sgiliau mewn: Cynllunio a Threfnu, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Creadigrwydd ac Arloesi ac Effeithiolrwydd Personol, gan eu cefnogi ar yr un pryd i ehangu eu dealltwriaeth o'r byd y maent yn byw ynddo a'u hannog i gymryd rhan mewn prosesau ymgysylltu beirniadol a sifil, ac i ystyried eu llesiant nhw eu hunain a llesiant pobl eraill.

Cyfeirir at y sgiliau hyn fel y Sgiliau Cyfannol a dylid annog dysgwyr i ystyried y sgiliau hyn fel rhan gyfannol o'u llwyddiant yn y dyfodol.

2.2. Y Sgiliau Cyfannol (Deilliannau Dysgu)

Mae'n rhaid i ddysgwyr gael cyfleoedd i ymarfer, datblygu a dangos Sgiliau Cyfannol Cynllunio a Threfnu, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Creadigrwydd ac Arloesi ac Effeithiolrwydd Personol mewn gwahanol gyd-destunau (gweler 2.3 isod) fel rhan o'u rhaglen ddysgu, a chyn ymgymryd â'u hasesiad cyntaf. Ceir canllawiau pellach ar addysgu a dysgu yng nghyd-destun pob Project yn Adrannau 4-6.

Caiff pob Sgìl Cyfannol ei gyflwyno fel Deilliant Dysgu a'i gefnogi gan gyfres o Sgiliau Penodol sy'n rhoi esiampl o sut y bydd dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu cymhwyso'r Sgil Cyfannol yn effeithiol. Bydd pob Project yn cynnwys sawl tasg benodol. Bydd pob tasg yn nodi'n glir pa rai o'r Sgiliau Penodol y bydd ymgeisydd yn eu defnyddio i ddangos ei fod yn gallu cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol.

Dylai'r Sgiliau Cyfannol barhau i gael eu datblygu drwy gydol y cwrs gan sicrhau bod dysgwyr yn gwbl barod i gwblhau'r trefniadau asesu ar gyfer y Projectau.

[1] https://www.nesta.org.uk/report/the-future-of-skills-employment-in-2030/

© WJEC CBAC Ltd.

Deilliant Dysgu 1 Cymhwyso Sgiliau Cynllunio a Threfnu

Mae effeithlonrwydd a chynhyrchedd wrth gyflawni deilliant o ansawdd yn dibynnu ar fod yn drefnus. Mae'r sgiliau hyn yn galluogi dysgwyr i adnabod, cynllunio a chyflawni project, gan gymhwyso amrediad o sgiliau, strategaethau a dulliau i gyflawni deilliannau wedi'u cynllunio.

Sgiliau Penodol	
1.1	Adnabod rhesymeg y project.
1.2	Pennu nodau ac amcanion priodol a realistig.
1.3	Cynllunio ymchwil priodol a pherthnasol.
1.4	Trefnu gweithgareddau a thasgau.
1.5	Dethol a defnyddio technegau a/neu adnoddau rheoli project priodol.
1.6	Diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant.
1.7	Monitro cynnydd yn erbyn cynllun y project (gan gynnwys datblygiadau ac addasiadau i unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl).
1.8	Rheoli adnoddau, amserlenni a risgiau posibl.
1.9	Rheoli a blaenoriaethu gwaith.

DD2 Cymhwyso Sgiliau Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau

Mae'r sgiliau hyn yn darparu'r adnoddau i annog chwilfrydedd ac yn helpu dysgwyr i ystyried problemau a nodi atebion posibl. Maent yn galluogi dysgwyr i ymchwilio, dethol yn feirniadol, trefnu a defnyddio gwybodaeth, eu cymhwyso mewn ffordd berthnasol a dangos dealltwriaeth o unrhyw gysylltau, cysylltiadau a chymhlethdodau, a dod i gasgliadau i ddatrys problemau cymhleth.

Sgiliau Penodol	
2.1	Defnyddio cwestiynau ystyrlon i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth.
2.2	Cymhwyso dulliau i ddatrys problemau cymhleth, gan gynnwys technegau ymchwil wedi'u canolbwyntio i gasglu gwybodaeth gynradd ac eilaidd.
2.3	Dewis gwybodaeth briodol drwy werthuso hygrededd yn feirniadol ac adnabod tuedd a thybiaethau.
2.4	Dadansoddi gwybodaeth gymhleth a chynnig pwyntiau allweddol.
2.5	Cyfosod gwybodaeth gynradd ac eilaidd sy'n cynnwys barnau, safbwyntiau a dadleuon eraill.
2.6	Gwneud defnydd manwl gywir o ddull academaidd o gyfeirnodi.
2.7	Llunio ymatebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn berswadiol ac yn argyhoeddiadol.
2.8	Cynnig datrysiadau priodol a'u cyfiawnhau.
2.9	Llunio barnau dilys a chasgliadau wedi'u rhesymu.

© WJEC CBAC Ltd.

Deilliant Dysgu 3 Cymhwyso Sgiliau Creadigrwydd ac Arloesi

Mae creadigrwydd yn agor y meddwl, yn ehangu ein persbectif ac yn hyrwyddo'r potensial i annog agweddau cadarnhaol yr unigolyn. Mae'r sgiliau hyn yn galluogi dysgwyr i gynhyrchu syniadau cymhleth gwreiddiol, trawsnewid syniadau mewn ffordd ymarferol i ddatblygu deilliant a chyfiawnhau a chyfleu'r penderfyniadau a wnaed.

Sgiliau Penodol	
3.1	Cynhyrchu syniadau yn annibynnol.
3.2	Cydweithio wrth feddwl yn greadigol a chynhyrchu syniadau newydd drwy rannu, lledaenu ac adeiladu ar y cydweithio hwnnw.
3.3	Creu cysylltiadau rhwng gwahanol wybodaeth i gefnogi deilliannau.
3.4	Defnyddio meddwl creadigol i ddadansoddi gwybodaeth a syniadau.
3.5	Ystyried ymarferoldeb rhoi syniadau a chanlyniadau ar waith.
3.6	Cyfiawnhau pam y cafodd y syniad mwyaf priodol ei ddethol drwy gymhwyso technegau gwneud penderfyniadau gwrthrychol, gan gynnwys safbwyntiau eraill lle y bo'n briodol.
3.7	Archwilio, mireinio, addasu a datblygu syniadau a deilliannau priodol.
3.8	Datblygu dulliau cyfathrebu arloesol sy'n briodol i'r gynulleidfa.

Deilliant Dysgu 4 Cymhwyso Sgiliau Effeithiolrwydd Personol

Mae pobl sy'n deall eu hunain a'u galluoedd yn delio'n well â sefyllfaoedd annisgwyl, yn arwain bywydau mwy boddhaus ac yn meddu ar fwy o ffydd a hyder ynddynt eu hunain, sy'n rhan hanfodol o lwyddiant a boddhad. Mae'r sgiliau hyn yn galluogi dysgwyr i gael y gorau ohonynt eu hunain, gan greu effaith gadarnhaol ac egnïol. Bydd dysgwyr hefyd yn dysgu i ddeall a defnyddio egwyddorion gwerthuso ac adolygu mewn perthynas â'r deilliant a gynlluniwyd a'u dysgu a'u perfformiad eu hunain. Wrth wneud hynny, bydd y sgiliau hyn yn grymuso teimlad o foddhad a chyflawniad.

Sgiliau Penodol	
4.1	Dadansoddi sut gellir cymhwyso a/neu feithrin ei sgiliau ei hun i fod yn bersonol effeithiol.
4.2	Rheoli a/neu addasu eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain.
4.3	Dangos perfformiad wrth gwblhau tasgau/gweithgareddau wrth weithio'n annibynnol.
4.4	Dangos cyfraniad wrth gydweithio.
4.5	Ymateb i adborth a rhoi adborth i bobl eraill, lle y bo'n briodol.
4.6	Myfyrio ar eu hymddygiadau, eu perfformiad a'u deilliannau eu hunain wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio, a'u gwerthuso.
4.7	Adnabod meysydd i'w gwella wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio.
4.8	Gwerthuso'r prosesau dysgu, y technegau a'r deilliannau a gyflawnir mewn perthynas â nodau, amcanion a meini prawf llwyddiant.

© WJEC CBAC Ltd.

2.3. Y Sgiliau Mewnblanedig

Yn ogystal ag asesu'r Sgiliau Cyfannol, mae cymwysterau Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch hefyd yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol.

Dylid mewnblannu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau hyn o fewn y gweithgareddau addysgu a dysgu ar gyfer pob Project. Bydd dysgwyr hefyd yn cael cyfle i ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau hyn ymhellach wrth gwblhau'r asesiadau, er enghraifft:

- gellir defnyddio sgiliau rhifedd wrth ddadansoddi data ystadegol neu wrth ystyried llesiant ariannol
- gellir defnyddio sgiliau llythrennedd wrth gwblhau gweithgareddau cyfathrebu a gwaith ysgrifenedig
- gellir defnyddio sgiliau digidol wrth gynhyrchu gwahanol fathau o dystiolaeth ar gyfer asesiadau.

Felly, dylid ystyried y sgiliau hyn fel adnoddau i ddysgwyr ddethol o'u plith wrth fwrw ati â phob tasg a gaiff ei gosod fel rhan o Broject.

Dylai athrawon a dysgwyr nodi **na chaiff** gallu dysgwyr i gymhwyso'r sgiliau mewnblanedig ei asesu.

2.4. Datblygu sgiliau mewn cyd-destun

Mae mwy o bobl ledled y byd yn byw bywydau gwell o gymharu â dim ond degawd yn ôl. Mae mwy o bobl yn gallu manteisio ar well gofal iechyd, gwaith boddhaus ac addysg nag erioed o'r blaen. Ond mae anghydraddoldebau a newid hinsawdd yn bygwth dadwneud y buddiannau. Gall buddsoddi mewn economïau cynhwysol a chynaliadwy esgor ar gyfleoedd sylweddol ar gyfer ffyniant cyffredin. Ac mae'r atebion gwleidyddol, technolegol ac ariannol o fewn cyrraedd. Ond mae angen llawer mwy o arweinyddiaeth a newidiadau cyflym digynsail er mwyn sicrhau bod y liferi newid hyn yn gydnaws ag amcanion datblygiad cynaliadwy.

Y Cenhedloedd Unedig (2022)[2].

Er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaet, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau mewn cyd-destunau perthnasol a chyfredol sy'n eu hannog i gymryd rhan mewn prosesau ymgysylltu beirniadol a sifil, ac i ystyried eu llesiant nhw eu hunain a llesiant pobl eraill.

At y diben hwn, mae agenda datblygiad cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig[3] a Nodau Llesiant Cymru[4], fel y'u diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn darparu fframwaith y gall dysgwyr ei ddefnyddio i ystyried ac archwilio materion cymhleth sy'n ymwneud â chymdeithas, yr amgylchedd, diwylliant a'r economi.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y cyd-destunau dysgu hyn yn Datblygiad Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Yr Hanfodion, ac yn ein Canllaw Cyd-destunau Dysgu.

---

[2] www.un.org/sustainabledevelopment/development-agenda/

[3] https://www.un.org/sustainabledevelopment/

[4] https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

Yn ogystal â sicrhau bod y dysgu yn berthnasol i ddysgwyr drwy gysylltu â'r byd go iawn, mae datblygu ac ymarfer sgiliau mewn gwahanol gyd-destunau yn helpu dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o sut y gellir cymhwyso'r un sgìl mewn gwahanol ffyrdd gan ddibynnu ar y dasg dan sylw, er enghraifft: gall creadigrwydd olygu creu syniad neu eitem sy'n newydd ac yn ddefnyddiol neu gall olygu cyfathrebu yn y ffordd sy'n cysylltu orau â'ch cynulleidfa darged – er enghraifft, drwy gymhorthion gweledol a/neu ddulliau rhyngweithio eraill.

Dylid annog dysgwyr i ystyried y canlynol:

- Pam mae'r Sgìl Penodol hwn yn bwysig ar gyfer y dasg benodol hon?
- Sut gallai fod angen i mi ddefnyddio'r sgìl hwn o ddydd i ddydd?

At hynny, dylid annog dysgwyr i ddefnyddio eu diddordebau, eu profiadau a'u diwylliannau amrywiol, ac i arfer dewis personol yn eu dysgu a'u hasesiadau.

Dylai athrawon a dysgwyr nodi **na chaiff** yr hyn y mae dysgwyr yn ei wybod am y cyd-destunau hyn ei asesu.

© WJEC CBAC Ltd.

3. Cyflwyniad i'r Projectau

Mae'r tri Phroject wedi'u cynllunio i sicrhau y gall dysgwyr arfer ymreolaeth a dewis personol wrth ddethol meysydd astudio sydd o ddiddordeb iddynt a/neu sy'n berthnasol i'w llwybrau cynnydd yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i bob dysgwr gwblhau tri Phroject gorfodol sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu, ymarfer a dangos y Sgiliau Cyfannol drwy amrywiaeth o gyd-destunau sy'n berthnasol ac yn gyfredol ac sy'n annog dysgwyr i gymryd rhan mewn prosesau ymgysylltu beirniadol a sifil, ac i ystyried eu llesiant nhw eu hunain a llesiant pobl eraill.

Mae'r **Project Cymuned Byd-eang** yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu bod yn gallu cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol gan ystyried ar yr un pryd faterion byd-eang cymhleth a chymryd rhan mewn camau gweithredu cymunedol i hybu dinasyddiaeth mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru. Wrth gwblhau'r Project hwn, bydd dysgwyr yn gwneud y canlynol:

- cael y cyfle i feddwl am eu gwerthoedd eu hunain a beth sy'n bwysig iddynt
- gallu lleisio eu barn eu hunain wrth sicrhau bod eraill yn ymwybodol o faterion
- chwarae rhan weithredol mewn cymuned leol, genedlaethol neu fyd-eang trwy weithredu cymunedol er mwyn helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae **Project Cyrchfannau'r Dyfodol** yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu bod yn gallu cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol gan archwilio ar yr un pryd nodau ar gyfer bywyd, cyflogadwyedd a dinasyddiaeth yn y dyfodol mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru. Wrth gwblhau'r Project hwn, bydd dysgwyr yn gwneud y canlynol:

- ystyried eu priodoleddau, eu galluoedd, eu cyflawniadau a'u blaenoriaethau eu hunain o ran llesiant yn y dyfodol
- archwilio cyfleoedd i wneud cynnydd personol tuag at gyflogaeth a'r effaith bosibl ar lesiant
- dangos sgiliau cydweithio

Drwy gwblhau'r **Project Unigol**, bydd dysgwyr yn datblygu ac yn dangos eu bod yn gallu cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol gan ar yr un pryd gynllunio, rheoli a chynnal project ymchwil annibynnol (adroddiad ymchwil ysgrifenedig neu arteffact). Wrth gwblhau'r Project hwn, bydd dysgwyr yn gwneud y canlynol:

- cydnabod pwysigrwydd ymchwil wrth wneud penderfyniadau gwybodus
- cael eu hannog i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso, ei dadansoddi, ei chyfleu a'i defnyddio i ddatrys problemau cymhleth
- cael y cyfle i ddangos gwreiddioldeb, blaengaredd ac i arfer cyfrifoldeb personol.

© WJEC CBAC Ltd.

Caiff y Projectau eu cyflwyno yn Adrannau 5, 6 a 7 ar ffurf hawdd i'w dilyn sy'n galluogi athrawon a dysgwyr i weld yn glir beth sydd ei angen ar gyfer pob project.

Teitl y Project:	Teitl y Project
Cyflwyniad:	Yn crynhoi, mewn ffordd gryno, ffocws y project.
Canllawiau cyflwyno:	Mae'r rhain yn rhoi syniadau i'r athro ynghylch sut i gyflwyno'r project. Mae'r cynnwys dangosol yn diffinio ehangder a dyfnder y dysgu ar gyfer pob sgìl penodol ac ar gyfer cyd-destun y project. Disgwylir i'r cynnwys dangosol gael ei gyflwyno yn ystod y rhaglen ddysgu.
Asesiad:	Mae'r adran hon yn crynhoi'r gofynion asesu ac yn rhoi manylion am y dystiolaeth i'w hasesu i'r dysgwr a'r athro.
Meithrin sgiliau mewnblanedig:	Yn dangos y cyfleoedd i ddysgwyr feithrin y sgiliau mewnblanedig.
Cysylltiadau ag agenda datblygiad cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru (Cyd-destunau Dysgu):	Yn dangos sut mae'r project yn cysylltu â'r cyd-destunau dysgu.
Cynllun marcio:	Grid asesu i'w ddefnyddio i farcio gwaith yr ymgeisydd.

© WJEC CBAC Ltd.

4. Project Cymuned Fyd-eang

Cod Cofrestru	9503U1

Cyflwyniad

Mae'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr ystyried amrywiaeth eang o faterion byd-eang cymhleth ac amlhaenog ac i werthfawrogi sut mae materion byd-eang yn croesi ffiniau lleol a chenedlaethol. Bydd yr heriau sy'n wynebu'r byd sydd ohoni a'r camau y bydd eu hangen i'w goresgyn yn ei gwneud yn ofynnol i bawb chwarae eu rhan. Dylai dysgwyr werthfawrogi bod y Cenhedloedd Unedig a Llywodraeth Cymru eisoes wedi pennu nodau i wledydd a sefydliadau fel cam hanfodol er mwyn symud ymlaen. Drwy gwblhau'r Project Cymuned Fyd-eang, sy'n cynnwys o leiaf 15 awr o weithredu cymunedol, bydd dysgwyr yn:

- datblygu fel dinesydd byd-eang gwybodus
- creu cysylltiadau rhwng materion lleol, cenedlaethol a byd-eang
- ymgysylltu mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru fel dinesydd gweithgar.

Mae'r gallu hwn i chwarae rôl o fewn cymdeithas, yn ogystal â sut i lywio'r rôl honno yn hyderus, yn set sgiliau hanfodol i bawb.

Canllawiau cyflwyno
Mae'n rhaid i'r rhaglen addysgu a dysgu ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau penodol sy'n berthnasol i asesu'r Project hwn. Dylai'r rhaglen addysgu a dysgu ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i ddysgwyr feithrin eu gwybodaeth am faterion byd-eang ac anghenion cymunedol wedi'u gosod yng nghyd-destun defnyddio rhai o nodau llesiant y Cenhedloedd Unedig a/neu Gymru.

Disgwylir y dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
- deall y cysyniad o faterion byd-eang
- gwerthfawrogi Nodau Datblygiad Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig er mwyn cyflawni byd cynaliadwy
- gwerthfawrogi Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru er mwyn cyflawni Cymru fywiog, ffyniannus sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- ymchwilio i amrywiaeth o faterion byd-eang, gan nodi, dadansoddi a gwerthuso persbectifau perthnasol, gwahanol a gwrthgyferbyniol
- empatheiddio â phobl o amrywiol oedrannau, cefndiroedd a sefyllfaoedd
- gallu nodi anghenion cymunedau lleol, cenedlaethol neu fyd-eang a chyfleoedd a fyddai o fudd iddynt
- gwerthfawrogi sefyllfaoedd dilys go iawn a chynnig atebion i faterion lleol, cenedlaethol neu fyd-eang.

Mae'n **rhaid** i'r rhaglen Addysgu a Dysgu gynnig llawer o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau perthnasol ar gyfer y Project Cymuned Byd-eang. Mae'r tablau canlynol yn rhoi canllaw i athrawon ar sut gellid datblygu'r sgiliau hyn trwy raglen addysgu a dysgu ar gyfer y Project hwn.

Cynllunio a Threfnu	
Sgìl Penodol	**Canllawiau**
1.4 Amserlennu gweithgareddau a thasgau.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • rhannu gweithgaredd yn dasgau a chamau gweithredu

© WJEC CBAC Ltd.

	• gosod tasgau a chamau gweithredu mewn trefn resymegol • dyrannu amser i dasgau a chamau gweithredu. Gellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddatblygu a dangos y sgìl hwn, er enghraifft: • Calendr • Tabl gweithgareddau • Siart Gantt.
1.5 Dethol a defnyddio technegau a/neu adnoddau rheoli project priodol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall y camau i ddatblygu cynllun y Project • archwilio technegau a/neu adnoddau rheoli project priodol • llunio amserlen • pennu cerrig milltir a therfynau amser • pennu targedau, blaenoriaethau a nodau • pennu meini prawf llwyddiant.
1.7 Monitro cynnydd yn erbyn cynllun y project (gan gynnwys datblygiadau ac addasiadau i unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl).	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn cerrig milltir a threfynau amser • addasu cynllun y project i unrhyw amgylchiadau newidiol posibl.
1.8 Rheoli adnoddau, amserlenni a risgiau posibl.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • adnabod a monitro'r defnyddiau a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob tasg a cham gweithredu • adnabod a monitro risgiau posibl o ran cwblhau tasgau a chamau gweithredu • cynnwys cynlluniau wrth gefn er mwyn sicrhau y caiff y meini prawf llwyddiant eu bodloni.

Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	
Sgiliau Penodol	**Canllawiau**
2.1 Defnyddio cwestiynau ystyrlon i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • gofyn cwestiynau ystyrlon. Gallai amrywiaeth o dechnegau cwestiynu gynnwys y canlynol: • techneg pwy, beth, ble, pryd, pam a sut • cwestiynau agored • cwestiynau holgar • cwestiynau twndish.
2.3 Dethol gwybodaeth briodol drwy werthuso hygrededd yn feirniadol ac adnabod tuedd a thybiaethau.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • ymchwilio i hygrededd, perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth eilaidd

© WJEC CBAC Ltd.

	• deall dibynadwyedd, dilysrwydd, tuedd a buddiannau sy'n rhoi mantais bersonol mewn perthynas â gwybodaeth eilaidd. Gellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddatblygu a dangos y sgìl hwn, er enghraifft: • Cyfrededd, Perthnasedd, Awdurdod, Cywirdeb a Diben (CRAAP) • ffactorau Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol (PESTLE) • Dibynadwy, Cyfredol, Perthnasol, Defnyddiol • Cymdeithasol, Technolegol, Economaidd, Gwleidyddol, Cyfreithiol a Moesegol (STEEPLE).
2.4 Dadansoddi gwybodaeth gymhleth a chynnig pwyntiau allweddol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • adnabod a dadansoddi amrywiaeth o ffeithiau, barnau a safbwyntiau • adnabod pwyntiau allweddol gan gynnwys achosion, newidiadau, canlyniadau, nodweddion tebyg a gwahaniaethau.
2.6 Gwneud defnydd cywir o ddull academaidd o gyfeirnodi.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • archwilio a chymhwyso amrywiaeth o ddulliau academaidd o gyfeirnodi ar gyfer gwahanol wybodaeth eilaidd gan gynnwys testun a chyfryngau.
2.7 Llunio ymatebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn berswadiol ac yn argyhoeddiadol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • llunio barn, crynhoi a chyflwyno canfyddiadau • cyfleu cynnwys ac ystyr gan ddefnyddio iaith a therminoleg yn gywir • cyflwyno gwybodaeth a syniadau cymhleth mewn trefn resymegol a pherswadiol.
2.8 Cynnig datrysiadau priodol a'u cyfiawnhau.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • adnabod a chyfiawnhau opsiynau a datrysiadau posibl i broblemau.

Creadigrwydd ac Arloesi	
Sgiliau Penodol	**Canllawiau**
3.3 Creu cysylltiadau rhwng gwahanol wybodaeth i gefnogi deilliannau.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • creu cysylltiadau rhwng gwahanol farnau a safbwyntiau o wybodaeth eilaidd • ystyried eu barnau a'u safbwyntiau eu hunain ar faterion a sut maent yn cysylltu â barnau a safbwyntiau pobl eraill.
3.4 Defnyddio meddwl creadigol i ddadansoddi gwybodaeth a syniadau.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • bod yn hyderus wrth fynegi eu syniadau eu hunain a pharchu syniadau pobl eraill

© WJEC CBAC Ltd.

	• cyfuno eu syniadau eu hunain â syniadau pobl eraill i lunio deilliant arloesol.
3.8 Datblygu dulliau cyfathrebu arloesol sy'n briodol i'r gynulleidfa.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • cyfathrebu'n ysgrifenedig ac ar lafar • deall sut mae gwahanol ddulliau cyfathrebu yn briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol • defnyddio cyfryngau digidol i gyfleu gwybodaeth a syniadau.

Effeithiolrwydd Personol	
Sgiliau Penodol	**Canllawiau**
4.2 Rheoli a/neu addasu eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall ymddygiadau priodol gan gynnwys cydweithio, cyfaddawdu, annog, parchu, perswadio a negodi.
4.3 Dangos perfformiad wrth gwblhau tasgau/gweithgareddau wrth weithio'n annibynnol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall pwysigrwydd eu perfformiad eu hunain wrth sicrhau y caiff meini prawf llwyddiant eu bodloni • myfyrio ar berfformiad personol wrth gwblhau gweithgaredd gan gynnwys rheoli amser ac adnoddau • ymgynghori ag arbenigwyr i gael cyngor a chymorth.
4.5 Ymateb i adborth a rhoi adborth i bobl eraill, lle y bo'n briodol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • ymateb i adborth a roddir • rhoi adborth adeiladol i eraill gan gynnwys cryfderau a meysydd i'w gwella • deall sut y gall yr adborth a roddir ddylanwadu ar gamau gweithredu yn y dyfodol.
Myfyrio ar eu hymddygiadau, eu perfformiad a'u deilliannau eu hunain wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio, a'u gwerthuso.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall gwahanol ddulliau ac adnoddau hunanasesu er mwyn gwella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain.
4.7 Adnabod meysydd i'w gwella wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • nodi meysydd i'w gwella • datblygu eu cynllun gweithredu eu hunain ar gyfer meysydd i'w gwella, gan gynnwys defnyddio targedau SMART.

Asesu

Bydd angen i ddysgwyr ymgymryd â'r tasgau canlynol:

1a.
Cynnal gwaith ymchwil er mwyn dod o hyd i wybodaeth eilaidd o amrywiaeth eang o ffynonellau am y mater byd-eang a ddewiswyd gennych er mwyn llunio Adolygiad Ymchwil.

(**12 marc**)

© WJEC CBAC Ltd.

1b.
Defnyddio'r wybodaeth o'r Adolygiad Ymchwil i gyflwyno gwybodaeth i gynulleidfa am y mater byd-eang.

(**12 marc**)

Dylai dysgwyr dreulio tua **20 awr** yn cwblhau Tasg 1.

2.
Ystyried sut mae'r mater byd-eang a ddewiswyd gennych yn gysylltiedig â phroblem yng Nghymru neu mewn ardal leol y mae angen ymdrin â hi. Llunio Cynnig Perswadiol sy'n nodi'r ateb mwyaf priodol i'r broblem.

(**12 marc**)

Dylai dysgwyr dreulio tua **5 awr** yn cwblhau'r dasg hon.

3.
Ystyried sut y gallwch gyfrannu at ymdrin â'r mater byd-eang a ddewiswyd drwy gymryd camau gweithredu cadarnhaol am o leiaf 15 awr fel dinesydd gweithgar naill ai yn eich cymuned leol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang. Llunio Cofnod Dinesydd Gweithgar a fydd yn dangos tystiolaeth o'ch taith o'r cam cynllunio hyd at y cam perfformio a'r cam o werthuso eich cyfranogiad yn y cam gweithredu cymunedol a ddewiswyd gennych.

(**36 marc**)

Dylai dysgwyr dreulio tua **25 awr** yn cwblhau'r dasg hon.

Meithrin Sgiliau Mewnblanedig
Drwy gwblhau'r Project hwn, bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu a dangos y canlynol:

- **sgiliau rhifedd**, drwy ddadansoddi data fel rhan o'u hadolygiad ymchwil.
- **sgiliau llythrennedd** a/neu **ddigidol**, drwy lunio a chyflwyno gwybodaeth.

Gan nad yw'r fformatau tystiolaeth wedi'u rhagnodi'n gaeth, gall dysgwyr ddewis pa sgiliau mewnblanedig y byddant yn eu defnyddio wrth gwblhau eu hasesiadau.

Cysylltiadau ag agenda datblygiad cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru (Cyd-destunau Dysgu)

Mae'r Project Cymuned Byd-eang yn cynnig cyfle delfrydol i ystyried Nodau Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Tasg 1 yn gofyn i ddysgwyr 'ddethol ac ymchwilio i fater byd-eang o'u dewis gan gymhwyso sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau'. Mae'r cyd-destunau dysgu yn sbardun perffaith i ddysgwyr o ran dethol eu materion byd-eang. Ar ôl i ddysgwyr archwilio'r cyd-destunau dysgu, bydd ganddynt sail gadarn ar gyfer archwilio eu materion byd-eang yn ogystal â gallu ystyried sut y gallent ymdrin â phroblem gysylltiedig yng Nghymru neu eu hardal leol ar gyfer tasg 2, cyn cynllunio cam gweithredu cymunedol naill ai mewn cymuned leol, genedlaethol neu fyd-eang a nodi sut y bydd o fudd i'r gymuned a ddewiswyd gan y dysgwr yn nhasg 3.

© WJEC CBAC Ltd.

Cynllun Marcio

Tasg 1a - Adolygiad Ymchwil

Dyfarnwch 0 i unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Deilliant Dysgu	Sgiliau penodol a ddangoswyd	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
DD2 Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau (2.3)	**Dethol gwybodaeth briodol am y mater byd-eang sy'n dangos gwerthusiad beirniadol o hygrededd ac yn adnabod tuedd a thybiaethau.**	Mae rhywfaint o'r ymchwil a ddetholwyd yn briodol ar gyfer y mater byd-eang. Efallai nad oes llawer o gyfeiriadau at hygrededd, tuedd a/neu dybiaethau, os o gwbl.	Mae'r holl ymchwil a ddetholwyd yn briodol ar gyfer y mater byd-eang. Gall fod disgrifiad o hygrededd, tuedd a/neu dybiaethau ond nid ydynt yn cael eu dadansoddi. Gall hyn fod yn gyffredinol, ac ni fydd wedi'i osod mewn cyd-destun.	Dethol gwybodaeth briodol sy'n dangos gwerthusiad o hygrededd, tuedd a thybiaethau yn effeithiol ar gyfer y rhan fwyaf o'r wybodaeth.	Dethol gwybodaeth briodol sy'n dangos gwerthusiad beirniadol cynhwysfawr o hygrededd, tuedd a thybiaethau yn effeithiol iawn ar gyfer yr holl wybodaeth.	/4
DD2 Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau (2.4)	**Dadansoddiad o wybodaeth gymhleth am y mater byd-eang sy'n nodi'r pwyntiau allweddol.**	Cynigir disgrifiad naratif neu restr o'r pwyntiau heb unrhyw ddadansoddiad.	Mae rhywfaint o ymgais i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth. Fodd bynnag, nid yw'n parhau ym mhob rhan. Mae rhai pwyntiau allweddol yn cael eu codi ond efallai nad ymhelaethir arnynt.	Dangosir dadansoddiad effeithiol o wybodaeth gymhleth sy'n nodi amrywiaeth o bwyntiau allweddol am y mater byd-eang.	Dadansoddiad effeithiol iawn o wybodaeth gymhleth sy'n nodi amrywiaeth eang o bwyntiau allweddol mewn ffordd soffistigedig.	/4
DD2 Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau (2.6)	**Defnydd cywir o ddull academaidd o gyfeirnodi.**	Rhoddir tystiolaeth o ffynonellau ymchwil ond nid yw'n dangos dull academaidd o gyfeirnodi.	Mae elfennau o gyfeirnodi academaidd yn amlwg, ond efallai nad ydynt yn gyson a gall fod nifer o hepgoriadau.	Defnydd effeithiol a chywir o ddull academaidd o gyfeirnodi. Gall fod mân hepgoriadau.	Defnydd effeithiol iawn, cyson a chywir o ddull academaidd o gyfeirnodi heb unrhyw hepgoriadau.	/4
					Cyfanswm y Marciau	**/12**

© WJEC CBAC Ltd.

Dyfarnwch 0 i unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Deilliant Dysgu	Sgiliau penodol a ddangoswyd	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
DD3 Creadigrwydd ac Arloesi (3.3)	**Creu cysylltiadau rhwng gwahanol wybodaeth.**	Caiff gwybodaeth ei chyflwyno ar ffurf debyg i restr, gyda chysylltiadau cyfyngedig rhwng gwahanol wybodaeth.	Caiff rhai cysylltiadau eu creu rhwng gwahanol wybodaeth, ond efallai mai cysylltiadau cyffredinol ydynt neu nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol.	Caiff cysylltiadau perthnasol a datblygedig eu creu rhwng gwahanol wybodaeth.	Caiff cysylltiadau perthnasol a chreadigol iawn eu creu rhwng gwahanol wybodaeth.	/4
DD3 Creadigrwydd ac Arloesi (3.4)	**Defnyddio sgiliau meddwl yn greadigol i gyflwyno'r wybodaeth a'r syniadau a ddadansoddwyd o'r adolygiad ymchwil.**	Prin yw'r dystiolaeth o ddefnyddio sgiliau meddwl yn greadigol. Caiff gwybodaeth a syniadau eu disgrifio ac mae'n bosibl y byddant ar ffurf debyg i restr.	Mae'r cyflwyno gwybodaeth yn dangos rhywfaint o dystiolaeth o sgiliau meddwl yn greadigol sy'n galluogi'r dysgwr i ddadansoddi rhywfaint o wybodaeth a syniadau.	Mae'r cyflwyno gwybodaeth yn dangos tystiolaeth o sgiliau meddwl yn greadigol effeithiol er mwyn dadansoddi'r holl wybodaeth a syniadau.	Mae'r cyflwyno gwybodaeth yn dangos tystiolaeth o ddefnyddio sgiliau meddwl yn greadigol mewn ffordd effeithiol iawn. Gall y dysgwr ddatblygu dadansoddiad soffistigedig o'r holl wybodaeth a syniadau.	/4
DD3 Creadigrwydd ac Arloesi (3.8)	**Datblygu dull cyfathrebu arloesol sy'n briodol i'r gynulleidfa.**	Nid yw'r dull cyfathrebu yn arloesol gan o bosibl ddim ond cyflwyno'r ffeithiau. Efallai nad yw'r cynnwys a'r ystyr yn briodol i'r gynulleidfa.	Mae'r dull cyfathrebu yn dangos rhai elfennau arloesol. Ar y cyfan, caiff y cynnwys a'r ystyr eu cyfleu'n briodol i'r gynulleidfa.	Mae cyflwyniad y dull cyfathrebu yn dangos elfennau arloesol clir. Caiff y cynnwys a'r ystyr eu cyfleu'n effeithiol i'r gynulleidfa.	Mae'r dull cyfathrebu yn arloesol iawn. Caiff y cynnwys a'r ystyr eu cyfleu'n effeithiol iawn i'r gynulleidfa.	/4
					Cyfanswm y Marciau	**/12**

© WJEC CBAC Ltd.

Tasg 2 - Cynnig Perswadiol

Dyfarnwch 0 i unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Deilliant Dysgu	Sgiliau penodol a ddangoswyd	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
DD2 Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau (2.1)	**Defnyddio cwestiynau ystyrlon i fynd i'r afael â phroblem gymhleth.**	Caiff y broblem ei nodi ond ni chaiff ei chwestiynu.	Caiff y broblem ei nodi a'i chwestiynu. Fodd bynnag, gallai'r cwestiynu fod yn gyffredinol neu'n sylfaenol.	Mae'r broblem a nodwyd yn gymhleth ac ymdriniwyd â hi gan ddefnyddio lefel briodol o gwestiynu cyn ystyried datrysiadau priodol.	Mae'r broblem a nodwyd yn gymhleth ac ymdriniwyd â hi gan ddefnyddio lefel uchel o gwestiynu cyn ystyried datrysiadau priodol.	/4
DD2 Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau (2.8)	**Cynnig a chyfiawnhau datrysiadau priodol i broblem yng Nghymru neu mewn ardal leol y mae angen ymdrin â hi.**	Cynigir datrysiadau cyfyngedig ond efallai nad ydynt yn realistig neu na ellir eu cyfiawnhau.	Mae'r datrysiadau a gynigir yn briodol ar y cyfan. Gellir cyfiawnhau i ryw raddau, ond mae'n bosibl nad yw rhai agweddau yn ymarferol.	Mae'r datrysiadau a gynigir yn briodol ac yn ymarferol, gellir eu cyfiawnhau, a byddent yn ymdrin â'r broblem a nodwyd.	Mae'r datrysiadau a gynigir yn briodol iawn ac yn ymarferol, gellir eu cyfiawnhau'n llawn, a byddent yn ymdrin â'r broblem a nodwyd.	/4
DD2 Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau (2.7)	**Llunio cynnig perswadiol ar gyfer y datrysiad a ddetholwyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn berswadiol ac yn argyhoeddiadol.**	Mae'r cynnig yn seiliedig ar farn yn hytrach na thystiolaeth. Nid oes ymdeimlad ei fod yn dwyn perswâd.	Mae'r cynnig yn defnyddio rhywfaint o dystiolaeth ac mae elfennau ohono yn berswadiol.	Mae'r cynnig yn berswadiol ac yn argyhoeddiadol, yn seiliedig ar ddefnydd effeithiol o dystiolaeth.	Mae'r cynnig yn berswadiol ac yn argyhoeddiadol iawn, yn seiliedig ar ddefnydd effeithiol iawn o dystiolaeth.	/4
					Cyfanswm y Marciau	**/12**

© WJEC CBAC Ltd.

Tasg 3 - Cofnod Dinesydd Gweithgar

Dyfarnwch 0 i unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Deilliant Dysgu	Sgiliau penodol a ddangoswyd	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
DD1 Cynllunio a Threfnu (1.4)	**Amserlennu gweithgareddau a thasgau ar gyfer y cam gweithredu cymunedol mewn cynllun project.**	Nid yw'r dull amserlennu yn drefnus. Efallai fod y tasgau yn afrealistig neu'n rhy eang.	Efallai nad oes digon o fanylion yn y rhestr o dasgau. Efallai fod terfynau amser ar goll. Efallai fod rhai agweddau ar y gwaith cynllunio, er mwyn sicrhau bod y cam gweithredu cymunedol yn mynd rhagddo'n ddidrafferth, ar goll.	Amserlen fanwl sy'n cynnwys tasgau realistig a chlir er mwyn sicrhau bod y cam gweithredu cymunedol yn mynd rhagddo'n ddidrafferth.	Amserlen fanwl iawn sy'n amlinellu'n glir amrywiaeth o dasgau sy'n ymdrin â phob agwedd ar y cam gweithredu cymunedol ac a fyddai'n sicrhau ei fod yn mynd rhagddo'n ddidrafferth.	/4
DD1 Cynllunio a Threfnu (1.5)	**Dethol a defnyddio technegau a/neu adnoddau rheoli project priodol ar gyfer ymgymryd â chynllun y project.**	Defnyddiwyd dull synnwyr cyffredin, yn hytrach na chymhwyso technegau a/neu adnoddau rheoli project penodol.	Ceir tystiolaeth o rai technegau a/neu adnoddau rheoli project. Fodd bynnag, nid ydynt o bosibl bob amser yn briodol ar gyfer y dasg.	Cafodd technegau a/neu adnoddau rheoli project eu dethol yn briodol a'u defnyddio. Ceir tystiolaeth eu bod wedi helpu i sicrhau bod y cam gweithredu cymunedol yn mynd rhagddo'n ddidrafferth.	Mae'r technegau a/neu adnoddau rheoli project a ddetholwyd yn briodol iawn ac wedi'u defnyddio'n effeithiol. Ceir tystiolaeth gryf eu bod wedi helpu i sicrhau bod y cam gweithredu cymunedol yn mynd rhagddo'n ddidrafferth.	/4
DD1 Cynllunio a Threfnu (1.7)	**Monitro cynnydd yn erbyn cynllun y project ar gyfer y cam gweithredu cymunedol (gan gynnwys datblygiadau ac addasiadau i unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl).**	Gwaith cyfyngedig i fonitro cynnydd heb unrhyw gysylltiad â chynllun y project. Mae'n bosibl nad oes unrhyw sôn am ddatblygiadau ac addasiadau i unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl.	Caiff rhywfaint o gynnydd ei fonitro yn erbyn cynllun y project. Caiff datblygiadau ac addasiadau i unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl eu disgrifio ond nid ydynt yn cael eu hesbonio. Efallai nad oes unrhyw gysylltiad rhyngddynt a chynllun y project.	Caiff unrhyw gynnydd ei fonitro yn erbyn cynllun y project. Caiff datblygiadau ac addasiadau i unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl eu hesbonio yng nghyd-destun cynllun y project.	Caiff unrhyw gynnydd ei fonitro'n glir yn erbyn cynllun y project. Caiff datblygiadau ac addasiadau i unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl eu hesbonio'n llawn yng nghyd-destun cynllun y project.	/4
DD1 Cynllunio a Threfnu (1.8)	**Rheoli adnoddau, amserlenni a risgiau posibl ar gyfer y gweithredu cymunedol.**	Caiff adnoddau, amserlenni a risgiau eu disgrifio ond efallai eu bod yn gyffredinol ac nad oes cysylltiad rhyngddynt a'r gweithredu cymunedol.	Ceir rhywfaint o ddisgrifiad penodol o adnoddau, amserlenni a risgiau posibl y gweithredu cymunedol, ond efallai nad oes digon o fanylion ac na fydd rhywfaint ohono'n briodol.	Ystyriwyd y broses o reoli'r adnoddau, yr amserlenni a'r risgiau posibl sy'n ymwneud yn benodol â'r gweithredu cymunedol.	Rhoddir ystyriaeth drylwyr i'r broses o reoli'r adnoddau, yr amserlenni a'r risgiau posibl sy'n ymwneud yn benodol â'r gweithredu cymunedol.	/4

© WJEC CBAC Ltd.

Deilliant Dysgu	Sgiliau penodol a ddangoswyd	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
DD4 Effeithiolrwydd Personol (4.2)	**Rheoli a/neu addasu eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain wrth weithio ar y cam gweithredu cymunedol.**	Prin yw'r dystiolaeth fod y dysgwr yn addasu neu'n rheoli ei ymddygiad a'i berfformiad, o fewn y datganiad cadarnhau a'r cofnod dinesydd gweithredol.	Ceir tystiolaeth bod gan y dysgwr rywfaint o ddealltwriaeth o'r angen i reoli a/neu addasu ei ymddygiad a'i berfformiad, o fewn y datganiad cadarnhau a'r cofnod dinesydd gweithredol.	Mae tystiolaeth bod y dysgwr yn rhoi ystyriaeth glir i'r angen i reoli a/neu addasu ei ymddygiad a'i berfformiad, o fewn y datganiad cadarnhau a'r cofnod dinesydd gweithredol.	Mae tystiolaeth bod y dysgwr yn rhoi ystyriaeth drylwyr i'r angen i reoli a/neu addasu ei ymddygiad a'i berfformiad, o fewn y datganiad cadarnhau a'r cofnod dinesydd gweithredol.	/4
DD4 Effeithiolrwydd Personol (4.3)	**Dangos perfformiad wrth gwblhau tasgau/gweithgareddau ar gyfer y cam gweithredu cymunedol wrth weithio'n annibynnol.**	Tystiolaeth brin heb unrhyw esboniad o'u perfformiad eu hunain wrth ymgymryd â thasgau/gweithgareddau annibynnol.	Rhywfaint o dystiolaeth ag esboniad cyfyngedig o'u perfformiad eu hunain wrth gwblhau tasgau/gweithgareddau.	Tystiolaeth effeithiol ac esboniad manwl o'u perfformiad eu hunain mewn perthynas â chwblhau tasgau a gweithgareddau.	Tystiolaeth effeithiol iawn ac esboniad manwl iawn o'u perfformiad eu hunain mewn perthynas â chwblhau tasgau a gweithgareddau.	/4
DD4 Effeithiolrwydd Personol (4.5)	**Ymateb i adborth a rhoi adborth i bobl eraill wrth gydweithio.**	Tystiolaeth o ymateb cyfyngedig i adborth. Os ydynt yn cydweithio, ceir diffyg tystiolaeth o roi adborth i bobl eraill.	Tystiolaeth o rywfaint o ymateb i adborth. Gall hyn fod yn gyffredinol ac nid yn benodol i'r cam gweithredu cymunedol. Os ydynt yn cydweithio, rhoddir rhywfaint o adborth i bobl eraill.	Tystiolaeth o fod yn ymatebol i adborth a'i ddefnyddio i wella eu perfformiad eu hunain. Os ydynt yn cydweithio, roedd yr adborth a roddwyd i bobl eraill yn briodol.	Tystiolaeth o fod yn ymatebol iawn i adborth a'i ddefnyddio i wella eu perfformiad eu hunain. Os ydynt yn cydweithio, roedd yr adborth a roddwyd i bobl eraill yn graff, yn ystyriol ac yn briodol.	/4
DD4 Effeithiolrwydd Personol (4.6)	**Myfyrio ar eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio, a'u gwerthuso.**	Myfyrio cyfyngedig ar eu hymddygiad a'u perfformiad eu hunain. Gall hyn ymddangos yn debyg i restr gyda diffyg gwerthuso.	Rhywfaint o ymdrech i fyfyrio ar eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain a'u gwerthuso ond gall fod diffyg manylion. Gall ymddangos yn gyffredinol yn hytrach nag yn benodol i'r cam gweithredu cymunedol.	Proses effeithiol ac ystyriol o fyfyrio ar eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain a'u gwerthuso. Mae'r enghreifftiau yn cysylltu'n glir â'r gweithredu cymunedol.	Proses effeithiol iawn, cytbwys a chraff o fyfyrio ar eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain a'u gwerthuso. Mae'r enghreifftiau yn cysylltu'n glir â'r gweithredu cymunedol.	/4
DD4 Effeithiolrwydd Personol (4.7)	**Adnabod meysydd i'w gwella wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio.**	Meysydd cyfyngedig i'w gwella a all ymddangos yn debyg i restr ac na fyddant o bosibl yn ymwneud yn glir â'r gweithredu cymunedol.	Caiff rhai meysydd i'w gwella eu trafod. Gall rhai ymddangos yn gyfyngedig ac yn arwynebol ac ni fyddant o bosibl yn ymwneud yn glir â'r cam gweithredu cymunedol.	Cydnabyddiaeth fanwl o'r meysydd i'w gwella. Gwneir awgrymiadau o ran sut y gellir eu datblygu ar gyfer camau gweithredu cymunedol yn y dyfodol.	Cydnabyddiaeth gynhwysfawr o'r meysydd i'w gwella. Gwneir awgrymiadau ystyriol o ran sut y gellir eu datblygu ar gyfer camau gweithredu cymunedol yn y dyfodol.	/4
					Cyfanswm y Marciau	**/ 36**

© WJEC CBAC Ltd.

5. Project Cyrchfannau'r Dyfodol

Cod Cofrestru	9503U2

Cyflwyniad
Diben Project Cyrchfannau'r Dyfodol yw galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu bod yn gallu cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol gan ar yr un pryd feithrin dealltwriaeth o bwy ydynt, eu sgiliau cyfredol, eu blaenoriaethau ar gyfer eu llesiant yn y dyfodol a beth sy'n eu cymell er mwyn pennu nodau ar gyfer eu bywyd yn y dyfodol.

Caiff dysgwyr eu hannog i ystyried cyfleoedd cyflogaeth realistig a'r llwybrau posibl sydd ar gael iddynt. Byddant yn ymchwilio i'w taith tuag at gyflogaeth ac yn ystyried yr effeithiau posibl o ran llesiant iechyd, llesiant cymdeithasol a llesiant ariannol arnynt eu hunain ac ar eraill.

Mae Project Cyrchfannau'r Dyfodol hefyd yn galluogi dysgwyr i ddeall gwerth cydweithio er mwyn datblygu eu ffordd o feddwl eu hunain. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn dangos sut y gall unigolion chwarae eu rhan, nid yn unig wrth wella eu dyfodol eu hunain ond hefyd wrth wella dyfodol pobl eraill mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru.

Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i wneud y canlynol:

- dod yn hunanymwybodol drwy ystyried priodoleddau personol, galluoedd, cyflawniadau a blaenoriaethau o ran llesiant
- ystyried llwybrau tuag at gyrchfannau cyflogaeth ac ystyried yr effaith bosibl ar eu llesiant nhw eu hunain a llesiant pobl eraill
- ystyried ffyrdd o gydweithio ag eraill er mwyn datblygu eu ffordd o feddwl eu hunain.

Bydd Project Cyrchfannau'r Dyfodol yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd hyderus tuag at y gyrchfan a ddewiswyd ganddynt.

Canllawiau cyflwyno
Disgwylir y bydd angen rhaglen addysgu a dysgu **tua 80 awr** o hyd i ymdrin â'r cynnwys canlynol ac i ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau penodol sy'n berthnasol i asesu'r Project hwn. Dylai'r rhaglen Addysgu a Dysgu ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i ddysgwyr feithrin eu gwybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt a'r rhwystrau y gall fod angen iddynt eu goresgyn ar eu taith tuag at eu cyrchfan yn y dyfodol. Dylid gosod gweithgareddau yng nghyd-destun defnyddio rhai o Nodau Llesiant Cymru.
Disgwylir y dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:

- ymchwilio i wahanol fathau o brofion personoliaeth a phrofion seicometrig
- deall nodweddion gwahanol bersonoliaethau
- deall pwysigrwydd hunanddyrchafu
- ystyried yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer gwneud cynnydd
- ystyried y rhwystrau a all atal cynnydd
- ystyried llesiant iechyd, llesiant cymdeithasol a llesiant ariannol amrywiaeth o lwybrau cyrchfan
- ystyried tueddiadau cyflogaeth a marchnadoedd swydd
- deall gwahanol ffyrdd o gydweithio ag eraill
- deall rolau a chyfrifoldebau wrth gydweithio.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae'n **rhaid** i'r rhaglen Addysgu a Dysgu gynnig llawer o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau perthnasol ar gyfer Project Cyrchfannau'r Dyfodol.

Mae'r tablau canlynol yn rhoi canllaw i athrawon ar sut gellid datblygu'r sgiliau hyn trwy raglen addysgu a dysgu ar gyfer y Project hwn.

Cynllunio a Threfnu	
Sgìl Penodol	**Canllawiau**
1.1 Adnabod rhesymeg y project.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall y dylai rhesymeg gynnwys y ffocws, y cwmpas a'r cefndir ond na ddylai fod yn gyfyngedig i hynny.
1.2 Pennu nodau ac amcanion priodol a realistig.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall bod nodau yn cyfleu'r strategaeth gyffredinol o ran yr hyn i'w gyflawni • deall bod amcanion yn cyfleu'r camau gweithredu penodol sydd eu hangen i gwblhau'r nodau • pennu nodau ac amcanion realistig sy'n synhwyrol ac yn ymarferol o ran yr hyn y gellir ei gyflawni neu ei ddisgwyl.
1.4 Amserlennu gweithgareddau a thasgau.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • rhannu gweithgaredd yn dasgau a chamau gweithredu • gosod tasgau a chamau gweithredu mewn trefn resymegol • dyrannu amser i dasgau a chamau gweithredu • dyrannu rolau a chyfrifoldebau.

1.5 Dethol a defnyddio technegau a/neu adnoddau rheoli project priodol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
	• deall dulliau cyfathrebu effeithiol ar gyfer rheoli projectau cydweithredol:
	  • cyfarfodydd, diweddariadau, adborth, grwpiau ffocws
	• archwilio technegau a/neu adnoddau rheoli project priodol ar gyfer gwaith cynllunio cydweithredol:
	  • siartiau Gantt
	  • matricsau blaenoriaethu
	• pennu cerrig milltir a therfynau amser
	• pennu targedau, blaenoriaethau a nodau SMART.

1.6 Diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall sut i ddiffinio blaenoriaethau mewn perthynas â thasg • deall sut y gellir defnyddio meini prawf llwyddiant i sicrhau deilliant llwyddiannus • pennu meini prawf llwyddiant.

© WJEC CBAC Ltd.

Sgiliau Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	
Sgìl Penodol	**Canllawiau**

2.2 Cymhwyso dulliau i ddatrys problemau cymhleth, gan gynnwys technegau ymchwil wedi'u canolbwyntio i gasglu gwybodaeth gynradd ac eilaidd.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
	• deall dulliau i ddatrys problemau:
	  • Chwe het feddwl
	  • Y 5 Pam
	  • Troi pethau o gwmpas (Flip it)
	  • Dadansoddiad SWOT
	  • Coed Problemau
	  • SQUID
	  • Y Chwech Newyddiadurol
	• deall bod y dysgwr yn dod o hyd i wybodaeth gynradd yn uniongyrchol at ddiben y project:
	  • Cyfweliad
	  • Arsylwad
	• deall bod gwybodaeth eilaidd, y cyfeirir ati hefyd fel ymchwil ddesg, yn bodoli eisoes a'i bod wedi'i chrynhoi, ei chasglu, ei threfnu a'i chyhoeddi gan eraill:
	  • Erthyglau
	  • Deunyddiau sefydliadau
	  • Dogfennau ac adroddiadau'r Llywodraeth
	  • Cronfeydd data ystadegol.

2.7 Llunio ymatebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn berswadiol ac yn argyhoeddiadol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • llunio barn, crynhoi a chyflwyno canfyddiadau • cyfleu cynnwys ac ystyr gan ddefnyddio iaith a therminoleg gywir • cyflwyno gwybodaeth a syniadau cymhleth mewn trefn resymegol a pherswadiol.
2.9 Llunio barnau dilys a chasgliadau wedi'u rhesymu.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall bod barn ddilys yn farn sy'n argyhoeddiadol ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir • deall bod casgliadau wedi'u rhesymu yn gasgliadau sy'n rhesymegol ac yn wybodus a'u bod wedi'u cysylltu â nodau'r project.

© WJEC CBAC Ltd.

Creadigrwydd ac Arloesi	
Sgìl Penodol	**Canllawiau**

3.1 Cynhyrchu syniadau yn annibynnol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
	• deall gwahanol dechnegau ar gyfer cynhyrchu syniadau:
	  • SCAMPER
	  • Meddwl awyr las
	  • Creu map meddwl
	  • Dychmygu
	  • Meddwl am yn ôl.

3.2 Cynhyrchu syniadau newydd drwy rannu, lledaenu ac adeiladu ar brosesau cydweithredol ar gyfer meddwl yn greadigol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
	• defnyddio dulliau ar gyfer rhannu eu syniadau eu hunain ag eraill:
	  • cofnodion cyfarfodydd
	  • gwaith myfyrio, log neu ddyddiadur
	  • cyfleusterau sgwrsio ar-lein
	  • mannau cydweithio ar-lein
	• ystyried a gwerthuso syniadau pobl eraill
	• archwilio sut y gellid datblygu syniadau.

3.3 Creu cysylltiadau rhwng gwahanol wybodaeth i gefnogi deilliannau.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • creu cysylltiadau rhwng gwahanol wybodaeth • ystyried eu barnau eu hunain a sut maent yn cysylltu â barnau pobl eraill.

3.4 Defnyddio meddwl creadigol i ddadansoddi gwybodaeth a syniadau.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
	• deall bod angen y canlynol er mwyn meddwl yn greadigol:
	  • Meddwl agored – y gallu i ddiystyru tybiaethau a thueddiadau a cheisio edrych ar bethau mewn ffordd newydd
	  • Dealltwriaeth – y gallu i archwilio pethau'n ofalus ac i ddeall beth y maent yn ei olygu
	  • Trefn – y gallu i drefnu eich syniadau er mwyn sicrhau eu bod yn gydlynus
	• bod yn hyderus wrth fynegi eu syniadau eu hunain a pharchu syniadau pobl eraill
	• cyfuno eu syniadau eu hunain â syniadau pobl eraill i lunio deilliant arloesol.

3.5 Ystyried ymarferoldeb rhoi syniadau a deilliannau ar waith.	Dylai dysgwyr allu deall y canlynol: • pa mor debygol ydyw y caiff y syniad neu'r datrysiad ei roi ar waith er mwyn cyflawni ei ddeilliant dymunol.
3.6 Cyfiawnhau pam y cafodd y syniad mwyaf priodol ei ddethol drwy gymhwyso technegau gwneud penderfyniadau gwrthrychol, gan	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall technegau gwneud penderfyniadau gwrthrychol gan gynnwys:

© WJEC CBAC Ltd.

gynnwys safbwyntiau eraill lle y bo'n briodol.	• Dadansoddiad SWOT • Techneg manteision/anfanteision • Coed penderfyniadau • Matrics penderfyniadau • Dadansoddiad PESTLE.
3.8 Datblygu dulliau cyfathrebu arloesol sy'n briodol i'r gynulleidfa.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • llunio a chyfleu dadleuon yn ysgrifenedig ac ar lafar • deall sut mae gwahanol ddulliau cyfathrebu yn briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol • defnyddio cyfryngau digidol i gyfleu gwybodaeth a syniadau.

Effeithiolrwydd Personol	
Sgìl Penodol	**Canllawiau**
4.1 Dadansoddi sut y gellir cymhwyso a/neu feithrin eu sgiliau eu hunain i fod yn bersonol effeithiol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • defnyddio asesiadau seicometrig neu asesiadau sgiliau • dadansoddi'r canfyddiadau.
4.5 Ymateb i adborth a rhoi adborth i bobl eraill wrth gydweithio.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • ymateb i adborth a roddir gan bobl eraill • rhoi adborth adeiladol i eraill gan gynnwys cryfderau a meysydd i'w gwella • deall sut y gall yr adborth a roddir ddylanwadu ar gamau gweithredu yn y dyfodol.
Myfyrio ar eu hymddygiadau, eu perfformiad a'u deilliannau eu hunain wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio, a'u gwerthuso.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall gwahanol ddulliau ac adnoddau ar gyfer hunanasesu perfformiad

Asesu

Bydd angen i ddysgwyr ymgymryd â'r tasgau canlynol:

1a.

Cyflwyno hunanasesiad er mwyn paratoi ar gyfer eich cyrchfan yn y dyfodol.

(**20 marc**)

Dylai dysgwyr dreulio tua **8 awr** yn cwblhau'r dasg hon.

1b.

Defnyddio'r deilliannau o Dasg 1a i archwilio swyddi realistig posibl ar gyfer y dyfodol. Llunio Cynllun Cyrchfan Cyflogaeth Personol yn amlinellu eich taith tuag at eich cyrchfan yn y dyfodol, gan esbonio eich dewisiadau a'u cyfiawnhau.

(**20 marc**)

Dylai dysgwyr dreulio tua **12 awr** yn cwblhau'r dasg hon.

© WJEC CBAC Ltd.

2.
Dethol un o'r themâu o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i lunio menter o'r enw 'Gwella ein Dyfodol' a allai gael effaith gadarnhaol ar eraill, ac a allai fod yn berthnasol i'ch cyrchfan yn y dyfodol. Llunio Cynnig ar gyfer Menter. Yn ystod y dasg hon, trafodwch eich menter arfaethedig drwy gydweithio â pherson arall, pobl eraill neu grŵp. Defnyddiwch eu hadborth i ddatblygu eich syniad. Cyflwynwch eich Menter Derfynol.

(**32 marc**)

Dylai dysgwyr dreulio tua **20 awr** yn cwblhau'r dasg hon.

Meithrin Sgiliau Mewnblanedig

Drwy gwblhau'r Project hwn, bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu a dangos y canlynol:

- **sgiliau llythrennedd** a/neu **ddigidol**, drwy lunio a chyflwyno eu hunanasesiad.
- **sgiliau rhifedd,** drwy ystyried a dadansoddi gwahanol gyfleoedd cyflogaeth a'r llwybrau sydd ar gael i'w cyflawni.

Gan nad yw'r fformatau tystiolaeth wedi'u rhagnodi'n gaeth, gall dysgwyr ddewis pa sgiliau mewnblanedig y byddant yn eu defnyddio wrth gwblhau eu hasesiadau.

Cysylltiadau ag agenda datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru (Cyd-destunau Dysgu)

Mae Project Cyrchfannau'r Dyfodol yn cynnig cyfle delfrydol i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae project Cyrchfannau'r Dyfodol yn addas ar gyfer cysylltu'r cyd-destunau dysgu drwy ddull gweithredu fesul tasg. Mae Tasg 1a yn gofyn i ddysgwyr gynnal hunanasesiad ohonynt eu hunain er mwyn paratoi ar gyfer dechrau eu taith tuag at gyrchfan y dyfodol. Mae Tasg 1b yn gofyn i ddysgwyr ddefnyddio eu deilliannau o Dasg 1a i archwilio meysydd cyflogaeth ar gyfer y dyfodol. Mae cysylltiadau clir rhwng y ddwy dasg hyn â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Drwy ganolbwyntio ar y cyd-destunau dysgu ar gyfer y tasgau hyn, gall dysgwyr deimlo'n fwy gobeithiol am y cymorth y byddant yn cael ei gynnig yng Nghymru i gyflawni eu nodau yn y dyfodol. Mae Tasg 2 yn rhan greiddiol o'r cyd-destunau dysgu. Mae'r dasg hon yn gofyn yn uniongyrchol i ddysgwyr ystyried eu diddordebau wrth benderfynu pa un neu ba rai o'r themâu canlynol sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) y byddant yn canolbwyntio arni/arnynt. Mae hyn yn deillio'n uniongyrchol o ddiben y Ddeddf sef 'rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i ni wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.'[5]

[5] https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

© WJEC CBAC Ltd.

Cynllun Marcio

Tasg 1a – Hunanasesu

Dyfarnwch 0 i unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Deilliant Dysgu	Sgiliau penodol a ddangoswyd	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
DD4 Effeithiolrwydd Personol (4.1)	**Dadansoddi sut y gellir cymhwyso a/neu feithrin eu sgiliau eu hunain i fod yn bersonol effeithiol**	Mae'r hunanasesiad yn dangos ymwybyddiaeth gyfyngedig o sut y gellir cymhwyso a/neu feithrin sgiliau'r dysgwr ei hun i fod yn bersonol effeithiol	Mae'r hunanasesiad yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o sut y gellir cymhwyso a/neu feithrin sgiliau'r dysgwr ei hun i fod yn bersonol effeithiol.	Mae'r hunanasesiad yn dangos lefelau effeithiol o ddadansoddi sut y gellir cymhwyso a/neu feithrin sgiliau'r dysgwr ei hun i fod yn bersonol effeithiol.	Mae'r hunanasesiad yn dangos lefelau effeithiol iawn o ddadansoddi sut y gellir cymhwyso a/neu feithrin sgiliau'r dysgwr ei hun i fod yn bersonol effeithiol	/4
DD4 Effeithiolrwydd Personol (4.6)	**Myfyrio ar eu hymddygiadau, eu perfformiad a'u deilliannau eu hunain wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio, a'u gwerthuso.**	Mae'r gwaith myfyrio yn debyg i restr ac nid oes ôl gwerthuso.	Rhywfaint o ymdrech i fyfyrio ar eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain a'u gwerthuso ond nid yw'r gwaith myfyrio yn fanwl. Gall ymddangos yn gyffredinol yn hytrach nag yn benodol i'r hunanasesiad	Proses effeithiol ac ystyriol o fyfyrio ar eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain a'u gwerthuso. Mae'r enghreifftiau yn cysylltu'n glir â'r hunanasesiad.	Proses effeithiol iawn, cytbwys a chraff o fyfyrio ar eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain a'u gwerthuso. Mae'r enghreifftiau yn cysylltu'n glir â'r hunanasesiad.	/4
DD2 Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau (2.9)	**Llunio barnau dilys a chasgliadau wedi'u rhesymu.**	Caiff barnau a/neu gasgliadau eu datgan ond efallai na fyddant yn ddilys neu byddant yn arwynebol.	Caiff rhai barnau dilys eu llunio. Caiff casgliadau eu datgan ond efallai na fyddant yn ddilys nac yn briodol.	Caiff barnau perthnasol a dilys eu llunio sy'n arwain at gasgliadau wedi'u rhesymu.	Caiff barnau perthnasol a dilys iawn eu llunio sy'n arwain at gasgliadau wedi'u rhesymu'n llawn	/4
DD3 Creadigrwydd ac Arloesi (3.4)	**Defnyddio meddwl creadigol i ddadansoddi gwybodaeth a syniadau.**	Prin yw'r dystiolaeth o ddefnyddio sgiliau meddwl yn greadigol wrth ystyried eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol. Caiff gwybodaeth a syniadau eu disgrifio ac mae'n bosibl y byddant ar ffurf debyg i restr.	Mae tystiolaeth o rywfaint o ddefnydd o sgiliau meddwl yn greadigol i ystyried eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn galluogi'r dysgwr i ddadansoddi rhywfaint o wybodaeth a rhai syniadau	Ceir tystiolaeth o ddefnydd effeithiol o sgiliau meddwl yn greadigol i ystyried eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn galluogi'r dysgwr i ddadansoddi'r holl wybodaeth a syniadau.	Ceir tystiolaeth o ddefnydd effeithiol iawn o sgiliau meddwl yn greadigol i ystyried eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn galluogi'r dysgwr i ddadansoddi'r holl wybodaeth a syniadau yn llawn.	/4
DD2 Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau (2.9)	**Llunio ymatebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn berswadiol ac yn argyhoeddiadol.**	Mae'r hunanasesiad yn seiliedig ar farn yn hytrach na thystiolaeth. Nid oes ymdeimlad ei fod yn dwyn perswâd.	Mae'r hunanasesiad yn defnyddio rhywfaint o dystiolaeth ac mae elfennau ohono yn berswadiol.	Mae'r hunanasesiad yn berswadiol ac yn argyhoeddiadol, yn seiliedig ar ddefnydd da o dystiolaeth.	Mae'r hunanasesiad yn berswadiol ac yn argyhoeddiadol iawn, yn seiliedig ar ddefnydd effeithiol o dystiolaeth.	/4
					Cyfanswm y Marciau	**/20**

© WJEC CBAC Ltd.

Tasg 1b - Cynllun Cyrchfan Cyflogaeth Personol

Dyfarnwch 0 i unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Deilliant Dysgu	Sgiliau penodol a ddangoswyd	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
DD2 Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau (2.2)	**Cymhwyso dulliau i ddatrys problemau cymhleth, gan gynnwys technegau ymchwil wedi'u canolbwyntio, i gasglu gwybodaeth gynradd ac eilaidd.**	Ceir ymgais gyfyngedig i ddefnyddio dulliau i ddatrys problemau. Mae diffyg amrywiaeth o ran technegau ymchwil ac mae'n bosibl mai dim ond gwybodaeth gynradd neu eilaidd y bydd y dysgwr wedi'i chasglu.	Ceir rhywfaint o ddefnydd o ddulliau i ddatrys problemau sy'n cynnwys dethol technegau ymchwil i gasglu gwybodaeth gynradd ac eilaidd, ond gall fod ansawdd un ohonynt yn gyfyngedig.	Defnydd effeithiol o ddulliau i ddatrys problemau cymhleth sy'n cynnwys amrywiaeth o dechnegau ymchwil i gasglu amrywiaeth briodol o wybodaeth gynradd ac eilaidd.	Defnydd effeithiol iawn o ddulliau i ddatrys problemau cymhleth sy'n cynnwys amrywiaeth gynhwysfawr o dechnegau ymchwil i gasglu amrywiaeth eang o wybodaeth gynradd ac eilaidd.	/4
DD3 Creadigrwydd ac Arloesi (3.1)	**Cynhyrchu syniadau yn annibynnol.**	Enghreifftiau cyfyngedig o gynhyrchu syniadau yn annibynnol. Gall fod angen cymorth rheolaidd ar y dysgwr i gynhyrchu syniadau.	Ceir tystiolaeth bod rhai syniadau yn cael eu cynhyrchu'n annibynnol, ond ni fyddant o bosibl bob amser yn briodol.	Ceir tystiolaeth o gynhyrchu syniadau yn annibynnol mewn ffordd effeithiol.	Ceir tystiolaeth o gynhyrchu syniadau yn annibynnol mewn ffordd effeithiol iawn.	/4
DD3 Creadigrwydd ac Arloesi (3.6)	**Cyfiawnhau pam y cafodd y syniad mwyaf priodol ei ddethol drwy gymhwyso technegau gwneud penderfyniadau gwrthrychol, gan gynnwys safbwyntiau eraill lle y bo'n briodol.**	Prin yw'r dystiolaeth o dechnegau gwneud penderfyniadau gwrthrychol wrth ystyried y llwybr gorau y byddent yn ei ddilyn tuag at eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol.	Ceir rhywfaint o dystiolaeth o dechnegau gwneud penderfyniadau gwrthrychol wrth ystyried y llwybr gorau y byddent yn ei ddilyn tuag at eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol.	Ceir tystiolaeth o dechnegau gwneud penderfyniadau effeithiol a gwrthrychol wrth ystyried y llwybr gorau y byddent yn ei ddilyn tuag at eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol.	Ceir tystiolaeth o dechnegau gwneud penderfyniadau effeithiol a gwrthrychol iawn wrth ystyried y llwybr gorau y byddent yn ei ddilyn tuag at eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol.	/4
DD1 Cynllunio a Threfnu (1.6)	**Diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant**	Caiff rhai blaenoriaethau a/neu feini prawf llwyddiant eu disgrifio ond ni fyddant o bosibl wedi'u cysylltu â'r gyrchfan gyrfa bersonol.	Ceir rhywfaint o ddisgrifiad o'r blaenoriaethau a'r meini prawf llwyddiant, ond efallai nad oes digon o eglurder neu fanylion, ac efallai nad yw pob rhan ohono yn briodol	Mae'r blaenoriaethau a'r meini prawf llwyddiant yn briodol ac wedi'u diffinio'n glir. Maent yn realistig a byddant yn galluogi'r dysgwr i gyflawni a mesur y rhan fwyaf o agweddau ar ei lwyddiant yn ei gyrchfan cyflogaeth yn y dyfodol.	Mae'r blaenoriaethau a'r meini prawf llwyddiant yn briodol iawn, yn fanwl ac wedi'u diffinio'n glir. Maent yn realistig iawn a byddant yn galluogi'r dysgwr i gyflawni a mesur pob agwedd ar ei lwyddiant yn ei gyrchfan cyflogaeth yn y dyfodol.	/4

© WJEC CBAC Ltd.

DD3 Creadigrwydd ac Arloesi (3.5)	**Ystyried ymarferoldeb rhoi syniadau a deilliannau ar waith.**	Prin yw'r dystiolaeth bod ymarferoldeb gweithio tuag at eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol wedi cael ei ystyried.	Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod ymarferoldeb gweithio tuag at eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol wedi cael ei ystyried. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd rhai agweddau wedi cael eu hystyried.	Ceir tystiolaeth bod ymarferoldeb gweithio tuag at eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol wedi cael ei ystyried mewn ffordd resymegol.	Ceir tystiolaeth glir bod ymarferoldeb gweithio tuag at eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol wedi cael ei ystyried mewn ffordd resymegol iawn.	/4
					Cyfanswm y Marciau	**/20**

© WJEC CBAC Ltd.

Tasg 2 – Menter

Dyfarnwch 0 i unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Deilliant Dysgu	Sgiliau penodol a ddangoswyd	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
DD3 Creadigrwydd ac Arloesi (3.2)	**Cynhyrchu syniadau newydd drwy rannu, lledaenu ac adeiladu ar brosesau cydweithredol ar gyfer meddwl yn greadigol.**	Enghreifftiau cyfyngedig o gynhyrchu syniadau drwy rannu, lledaenu ac adeiladu ar brosesau cydweithredol ar gyfer meddwl yn greadigol. Gall y dysgwr fod wedi gweithio ar ei ben ei hun.	Ceir tystiolaeth bod rhai syniadau yn cael eu cynhyrchu'n annibynnol, drwy rannu, lledaenu ac adeiladu ar brosesau cydweithredol ar gyfer meddwl yn greadigol, ond ni fyddant o bosibl bob amser yn briodol.	Ceir tystiolaeth bod syniadau yn cael eu cynhyrchu'n effeithiol drwy rannu, lledaenu ac adeiladu ar brosesau cydweithredol ar gyfer meddwl yn greadigol.	Ceir tystiolaeth bod syniadau yn cael eu cynhyrchu'n effeithiol iawn drwy rannu, lledaenu ac adeiladu ar brosesau cydweithredol ar gyfer meddwl yn greadigol.	/4
DD1 Cynllunio a Threfnu (1.1)	**Nodi rhesymeg y project.**	Nid yw'r rhesymeg ar gyfer y fenter yn cynnwys esboniad clir o pam y dewiswyd y fenter.	Mae'r rhesymeg yn ceisio esbonio pwrpas y fenter, ond efallai na fydd agweddau yn glir neu wedi'u cyfiawnhau'n llawn.	Mae'r rhesymeg yn esbonio pwrpas y fenter yn glir.	Mae'r rhesymeg yn esbonio pwrpas y fenter yn llawn ac yn cynnig amrywiaeth o dystiolaeth i gefnogi'r detholiad a wnaed.	/4
DD1 Cynllunio a Threfnu (1.2)	**Pennu nodau ac amcanion priodol a realistig.**	Efallai nad yw'r nodau a'r amcanion bob amser yn briodol a/neu'n realistig.	Mae'r nodau a'r amcanion yn glir ac yn briodol, ond efallai nad ydynt bob amser yn realistig neu wedi'u fframio'n effeithiol.	Mae'r nodau a'r amcanion yn briodol, yn glir, wedi'u fframio'n effeithiol ac yn realistig.	Mae'r nodau a'r amcanion yn briodol iawn, yn rhesymegol ac yn realistig.	/4
DD1 Cynllunio a Threfnu (1.4)	**Amserlennu gweithgareddau a thasgau.**	Nid yw'r dull amserlennu yn drefnus. Efallai fod y tasgau yn afrealistig neu'n rhy eang.	Efallai nad oes digon o fanylion yn y rhestr o dasgau. Efallai fod terfynau amser ar goll. Efallai fod rhai agweddau ar y gwaith cynllunio, er mwyn sicrhau bod y fenter yn mynd rhagddi'n ddidrafferth, ar goll.	Amserlen fanwl sy'n cynnwys tasgau realistig a chlir er mwyn sicrhau bod y broses o ddatblygu a chyflwyno'r fenter yn mynd rhagddi'n ddidrafferth.	Amserlen fanwl iawn sy'n amlinellu'n glir amrywiaeth o dasgau sy'n ymdrin â phob agwedd ar y broses o ddatblygu a chyflwyno'r fenter ac a fyddai'n sicrhau ei bod yn mynd rhagddi'n ddidrafferth.	/4
DD1 Cynllunio a Threfnu (1.5)	**Dethol a defnyddio technegau a/neu adnoddau rheoli project priodol.**	Defnyddiwyd dull synnwyr cyffredin, yn hytrach na chymhwyso technegau a/neu adnoddau rheoli project penodol.	Ceir tystiolaeth o rai technegau a/neu adnoddau rheoli project. Fodd bynnag, nid ydynt o bosibl bob amser yn briodol ar gyfer y dasg.	Cafodd technegau a/neu adnoddau rheoli project eu dethol a'u defnyddio yn briodol. Ceir tystiolaeth eu bod wedi helpu i sicrhau bod y broses o ddatblygu a chyflwyno'r fenter yn llwyddiannus.	Mae'r technegau a/neu adnoddau rheoli project a ddetholwyd yn briodol iawn ac wedi'u defnyddio'n effeithiol. Ceir tystiolaeth gryf eu bod wedi helpu i sicrhau bod y broses o ddatblygu a chyflwyno'r fenter yn llwyddiannus.	/4

© WJEC CBAC Ltd.

DD3 Creadigrwydd ac Arloesi (3.3)	**Creu cysylltiadau rhwng gwahanol wybodaeth i gefnogi deilliannau.**	Caiff gwybodaeth ei chyflwyno ar ffurf debyg i restr, gan ddangos cysylltiadau cyfyngedig rhwng ffynonellau. Nid oes llawer o ymdrech i gefnogi cynnig y fenter.	Caiff rhai cysylltiadau eu creu rhwng gwahanol wybodaeth, ond efallai mai cysylltiadau cyffredinol ydynt neu nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol. Maent yn dechrau cefnogi cynnig y fenter i ryw raddau	Caiff cysylltiadau perthnasol a datblygedig eu creu rhwng y wybodaeth er mwyn cefnogi cynnig y fenter yn llawn.	Caiff cysylltiadau perthnasol a chreadigol iawn eu creu rhwng y gwahanol wybodaeth er mwyn cefnogi cynnig y fenter yn llawn.	/4
DD3 Creadigrwydd ac Arloesi (3.8)	**Datblygu dulliau cyfathrebu arloesol sy'n briodol i'r gynulleidfa.**	Nid yw'r fenter yn arloesol ac mae'n ymddangos mai dim ond cyflwyno ffeithiau y mae'n ei wneud. Efallai nad yw'n briodol i'r gynulleidfa.	Mae'r fenter yn dangos rhai elfennau arloesol ac, ar y cyfan, mae'n briodol i'r gynulleidfa.	Mae'r fenter yn dangos elfennau arloesol clir ac mae'n briodol i'r gynulleidfa.	Mae'r fenter yn arloesol iawn ac yn briodol i'r gynulleidfa.	/4
DD4 Effeithiolrwydd Personol (4.5)	**Ymateb i adborth a rhoi adborth effeithiol i bobl eraill wrth gydweithio.**	Gall dysgwyr ei chael hi'n anodd ymateb i adborth gan eu cydweithredwyr. Byddant o bosibl yn ymateb mewn ffordd oddefol i syniadau.	Wrth gydweithio, bydd dysgwyr yn ymateb i rywfaint o adborth. Maent yn gallu rhoi rhywfaint o adborth effeithiol i'w cydweithredwyr.	Wrth gydweithio, gall dysgwyr ymateb i adborth a'i ddefnyddio i wella'r fenter. Maent hefyd yn gallu rhoi adborth effeithiol i'w cydweithredwyr.	Wrth gydweithio, mae dysgwyr yn ymatebol iawn i adborth ac yn ei ddefnyddio i wella'r fenter. Maent yn gallu rhoi adborth effeithiol i'w cydweithredwyr mewn ffordd graff, ystyriol a phriodol.	/4
					Cyfanswm y Marciau	**/32**

© WJEC CBAC Ltd.

6. Project Unigol

Cod Cofrestru	9503U3

Cyflwyniad
Mae'r Project Unigol yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu amrywiaeth o sgiliau ymchwil a chaffael gwybodaeth fanwl am destun sy'n cysylltu â dyheadau'r dysgwr ar gyfer y dyfodol o ran addysg neu yrfa. Bydd y sgiliau y bydd dysgwyr yn eu datblygu o fudd mawr iddynt mewn addysg uwch a chyflogaeth yn y dyfodol, ac yn bwyntiau trafod da ar gyfer cyfweliadau a fydd yn arwain at eu cyrchfan ar gyfer y dyfodol.

Wrth gwblhau'r Project Unigol, bydd y dysgwyr yn cydnabod pwysigrwydd gwaith ymchwil wrth wneud penderfyniadau hyddysg. Caiff dysgwyr eu hannog i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso, ei dadansoddi, ei chyfleu a'i defnyddio i ddatrys problem gymhleth. Cânt y cyfle i ddangos gwreiddioldeb, blaengaredd ac i arfer cyfrifoldeb personol.

Disgwylir i'r holl ddysgwyr sy'n ymgymryd â'r Project Unigol gyflawni proses y project, o ddewis testun ar gyfer y Project hyd at ei gwblhau. Mae'r meini prawf asesu wedi'u strwythuro i adlewyrchu'r broses hon o gynllunio'r Project hyd at y gwerthusiad.

Dylai'r Project Unigol gael ei gwblhau yn ystod ail hanner y cwrs, yn gyffredinol ar ôl y Project Cymuned Byd-eang a Phroject Cyrchfannau'r Dyfodol, er mwyn galluogi'r dysgwr i ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd.

Y goruchwyliwr
Wrth gwblhau'r Project Unigol, rhaid sicrhau bod goruchwyliwr penodedig ar gael i'r dysgwr a fydd yn rhoi cymorth ac arweiniad ond, yn y pen draw, y dysgwr fydd yn gwneud y penderfyniadau allweddol am gyfeiriad ei broject. Mae angen i'r goruchwyliwr weithredu fel cyfaill beirniadol drwy gydol y broses, h.y. gofyn cwestiynau i'r dysgwr, yn hytrach na dim ond darparu'r atebion.

Mae'n hanfodol bod y goruchwyliwr yn cymeradwyo pwnc y dysgwr cyn iddo fwrw ymlaen er mwyn sicrhau bod y pwnc yn ymarferol (nad yw'n rhy eang) ac yn ddichonadwy. Rhaid ystyried canllawiau moesegol er mwyn sicrhau y gall dysgwyr ymgymryd â'u project yn ddiogel.

Rhaid cynnal tri chyfarfod un-i-un (y gellir ei gynnal wyneb yn wyneb neu o bell ar-lein) â'r dysgwr a'i oruchwyliwr ar adegau allweddol. Bydd gofyn i ddysgwyr roi tystiolaeth o'r trafodaethau hyn a byddant yn defnyddio'r rhain i lywio datblygiad eu Project a'u hunanwerthusiad. Bydd y goruchwylwyr yn cynhyrchu eu cofnodion eu hunain o'r cyfarfodydd hyn a byddant yn cyflwyno eu cofnodion i athro/aseswr y dysgwr i'w ddefnyddio yn rhan o'r dystiolaeth i'w hasesu.

Rhaid i'r tri chyfarfod goruchwylio gael eu cynnal yn ystod yr adegau canlynol yn y broses:

Cyfarfod 1 – pan fydd y dysgwr wedi llunio'r teitl, y rhesymeg, y nodau a'r amcanion a'r cynllun ymchwil.

Cyfarfod 2 – pan fydd y dystiolaeth gynradd ac eilaidd wedi'u casglu, eu dadansoddi, a phan fydd cysylltiadau wedi cael eu creu rhwng y wybodaeth.

Cyfarfod 3 – ar ôl cwblhau'r Project Unigol. Bydd y dysgwr yn rhoi cyflwyniad er mwyn i'r goruchwyliwr gynnal adolygiad a rhoi adborth.

© WJEC CBAC Ltd.

Canllawiau cyflwyno

Disgwylir y bydd angen rhaglen addysgu a dysgu **tua 40 awr** o hyd i ymdrin â'r cynnwys canlynol ac i ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau penodol sy'n berthnasol i asesu'r Project hwn. Mae'r rhaglen Addysgu a Dysgu yn llai na'r ddau broject arall gan y dylai dysgwyr eisoes fod wedi datblygu llawer o'r sgiliau sydd eu hangen.

Disgwylir y dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:

- deall sut i ddethol a mireinio ffocws, cwmpas a diben ymchwilio addas
- ystyried materion sy'n gysylltiedig â llunio cwestiwn ymchwil effeithiol neu ddatganiad o fwriad mewn perthynas ag arteffact ar gyfer project ymchwil llwyddiannus
- deall sut i lunio project ymchwil ysgrifenedig
- deall sut i ddatblygu, dylunio a chynhyrchu arteffact
- deall anghenraid gwaith cynllunio trylwyr er mwyn strwythuro a datblygu project ymchwil
- deall sut i ddiffinio ac egluro nodau ac amcanion effeithiol a hydrin, a'r cysylltiadau rhyngddynt
- deall manteision ac anfanteision dulliau ymchwil wrth gasglu gwybodaeth gynradd a data rhifiadol
- deall y materion moesegol y mae'n rhaid eu hystyried cyn cynnal gwaith ymchwil
- archwilio gwahanol fathau o ddata rhifiadol, y defnydd a wneir ohonynt, a'u cyfyngiadau
- deall sut y gall gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd lywio project ymchwil ysgrifenedig neu ddylunio arteffact
- deall pwysigrwydd llunio barnau a chasgliadau yn seiliedig ar dystiolaeth
- ystyried gwerth myfyrio ar eu perfformiad eu hunain.

Mae'n **rhaid** i'r rhaglen Addysgu a Dysgu gynnig llawer o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau perthnasol ar gyfer y Project Unigol. Bydd dysgwyr yn datblygu ac yn dangos eu bod yn gallu cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol drwy gynllunio, rheoli a chynnal project ymchwil annibynnol boed ar ffurf project ysgrifenedig estynedig neu drwy ddatblygu a chynhyrchu arteffact.

Mae'r tablau canlynol yn rhoi canllaw i athrawon ar sut gellid datblygu'r sgiliau hyn trwy raglen addysgu a dysgu ar gyfer y Project hwn.

Cynllunio a Threfnu	
Sgìl Penodol	**Canllawiau**
1.1 Adnabod rhesymeg y project.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall sut i ysgrifennu teitl project ymchwil ar ffurf cwestiwn ymchwil a datganiad o fwriad • deall y dylai rhesymeg gynnwys y ffocws, y cwmpas a'r cefndir i ddethol pwnc ond na ddylai fod yn gyfyngedig i hynny • bod yn ymarferol o ran yr hyn y gellir ei gyflawni neu ei ddisgwyl.

© WJEC CBAC Ltd.

1.2 Pennu nodau ac amcanion priodol a realistig.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall bod nodau yn cyfleu'r strategaeth gyffredinol o ran yr hyn i'w gyflawni • deall bod amcanion yn cyfleu'r camau gweithredu penodol sydd eu hangen i gwblhau'r nodau

© WJEC CBAC Ltd.

	• pennu nodau ac amcanion priodol sy'n addas mewn perthynas â'r pwnc • pennu nodau ac amcanion realistig sy'n synhwyrol ac yn ymarferol o ran yr hyn y gellir ei gyflawni neu ei ddisgwyl.
1.3 Cynllunio ymchwil priodol a pherthnasol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • sicrhau bod gwaith ymchwil priodol yn addas neu'n briodol mewn perthynas â'r pwnc • sicrhau bod gwaith ymchwil perthnasol yn gysylltiedig â'r mater dan sylw • deall pa waith ymchwil cynradd ac eilaidd priodol a pherthnasol sydd ei angen i ymdrin â theitl ymchwil
1.6 Diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall sut i ddiffinio blaenoriaethau mewn perthynas â gwaith ymchwil • deall sut y gellir defnyddio meini prawf llwyddiant i sicrhau deilliant llwyddiannus.
1.8 Rheoli adnoddau, amserlenni a risgiau posibl.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • nodi a monitro'r deunyddiau a'r adnoddau sydd eu hangen • nodi a monitro risgiau posibl.
1.9 Rheoli a blaenoriaethu gwaith.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • rheoli cynllun project • defnyddio cofnodion cyfarfodydd i fonitro a/neu wneud addasiadau • deall sut i ddefnyddio atodiad.

Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	
Sgìl Penodol	**Canllawiau**

2.2 Cymhwyso dulliau i ddatrys problemau cymhleth, gan gynnwys technegau ymchwil wedi'u canolbwyntio i gasglu gwybodaeth gynradd ac eilaidd.	Dylai dysgwyr allu deall y canlynol:
	• bod sawl dull o ddatrys problemau:
	  • Chwe het feddwl
	  • Y 5 Pam
	  • Troi pethau o gwmpas (Flip it)
	  • Dadansoddiad SWOT
	  • Coed Problemau
	  • SQUID
	  • Y Chwech Newyddiadurol.
	• Y dysgwr sy'n dod o hyd i wybodaeth gynradd yn uniongyrchol at ddiben y project:
	  • Cyfweliad
	  • Arolwg
	  • Grŵp ffocws
	  • Arsylwad
	  • Gwaith maes
	  • Ffotograffau.

© WJEC CBAC Ltd.

	• Bod gwybodaeth eilaidd, y cyfeirir ati hefyd fel ymchwil ddesg, yn bodoli eisoes a'i bod wedi'i chrynhoi, ei chasglu, ei threfnu a'i chyhoeddi gan eraill:
	  • Llyfrau
	  • Erthyglau
	  • Dogfennau ac adroddiadau'r Llywodraeth
	  • Cronfeydd data ystadegol.

2.3 Dethol gwybodaeth briodol drwy werthuso hygrededd yn feirniadol ac adnabod tuedd a thybiaethau.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • ymchwilio i hygrededd, perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth eilaidd, gan gynnwys data • deall dibynadwyedd, dilysrwydd, tuedd a buddiannau sy'n rhoi mantais bersonol mewn perthynas â gwybodaeth eilaidd.
2.4 Dadansoddi gwybodaeth gymhleth a chynnig pwyntiau allweddol.	Dylai dysgwyr allu adnabod: • a dadansoddi amrywiaeth o ffeithiau, barnau a safbwyntiau • pwyntiau allweddol gan gynnwys achosion, newidiadau, canlyniadau, nodweddion tebyg a gwahaniaethau
2.5 Cyfosod gwybodaeth gynradd ac eilaidd sy'n cynnwys barnau, safbwyntiau a dadleuon eraill.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • dehongli gwybodaeth a dod â'r wybodaeth honno ynghyd mewn ffordd gydlynus.
2.6 Gwneud defnydd cywir o ddull academaidd o gyfeirnodi.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • archwilio a chymhwyso amrywiaeth o ddulliau academaidd o gyfeirnodi ar gyfer gwahanol wybodaeth eilaidd gan gynnwys testun a chyfryngau • deall sut i greu rhestr gyfeirio.
2.9 Llunio barnau dilys a chasgliadau wedi'u rhesymu.	Dylai dysgwyr allu deall y canlynol: • bod barn ddilys yn farn sy'n argyhoeddiadol ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir • bod casgliadau wedi'u rhesymu yn gasgliadau sy'n rhesymegol ac yn wybodus a'u bod wedi'u cysylltu â nodau'r project.

Creadigrwydd ac Arloesi	
Sgìl Penodol	**Canllawiau**

3.1 Cynhyrchu syniadau yn annibynnol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
	• deall gwahanol dechnegau ar gyfer cynhyrchu syniadau:
	  • SCAMPER
	  • Meddwl awyr las
	  • Creu map meddwl
	  • Dychmygu

© WJEC CBAC Ltd.

	• Meddwl am yn ôl
3.3 Creu cysylltiadau rhwng gwahanol wybodaeth i gefnogi deilliannau.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • creu cysylltiadau rhwng gwahanol farnau a safbwyntiau o wybodaeth gynradd ac eilaidd • ystyried eu barnau a'u safbwyntiau eu hunain ar faterion a sut maent yn cysylltu â barnau a safbwyntiau pobl eraill.
3.4 Defnyddio meddwl creadigol i ddadansoddi gwybodaeth a syniadau.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • bod yn hyderus wrth fynegi eu syniadau eu hunain a pharchu syniadau pobl eraill • cyfuno eu syniadau eu hunain â syniadau pobl eraill i lunio deilliant arloesol.
3.5 Ystyried ymarferoldeb rhoi syniadau a deilliannau ar waith.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall pwysigrwydd dethol syniad ymarferol i'w roi ar waith er mwyn cyflawni deilliant dymunol.
3.7 Archwilio, mireinio, addasu a datblygu syniadau a deilliannau priodol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • dangos bod syniadau priodol wedi cael eu hystyried, eu gwella a'u haddasu. Gellir dangos tystiolaeth o hyn drwy'r canlynol: • cofnodion cyfarfodydd â'r goruchwyliwr • gwaith dylunio wedi'i anodi
3.8 Datblygu dulliau cyfathrebu arloesol sy'n briodol i'r gynulleidfa.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall sut mae gwahanol ddulliau cyfathrebu yn briodol ar gyfer gwahanol ddeilliannau – ysgrifenedig neu arteffact • defnyddio delweddau gweledol i gyfleu gwybodaeth, syniadau a dyluniadau.

Effeithiolrwydd Personol	
Sgìl Penodol	**Canllawiau**
4.3 Dangos perfformiad wrth gwblhau tasgau/gweithgareddau wrth weithio'n annibynnol.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn meini prawf llwyddiant • myfyrio ar berfformiad drwy gydol y broses yn ystod y cyfarfod â'r goruchwyliwr.
4.4 Dangos cyfraniad wrth gydweithio.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall sut mae cydweithio â goruchwyliwr yn cyfrannu at effeithiolrwydd wrth lunio project ymchwil. Gellir dangos tystiolaeth o hyn drwy'r canlynol: • cofnodion cyfarfodydd â'r goruchwyliwr.
4.5 Ymateb i adborth a rhoi adborth i bobl eraill wrth gydweithio.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall y defnydd a wneir o waith i gynllunio camau gweithredu yn seiliedig ar adborth wrth gydweithio â goruchwyliwr.

© WJEC CBAC Ltd.

Myfyrio ar eu hymddygiadau, eu perfformiad a'u deilliannau eu hunain wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio, a'u gwerthuso.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall gwahanol ddulliau ac adnoddau ar gyfer hunanasesu perfformiad wrth gwblhau project ymchwil.
4.7 Adnabod meysydd i'w gwella wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • nodi meysydd i'w gwella • datblygu eu cynllun gweithredu eu hunain ar gyfer meysydd i'w gwella, gan gynnwys defnyddio targedau SMART ar gyfer datblygiad parhaus.
4.8 Gwerthuso'r deilliannau a gyflawnir mewn perthynas â nodau, amcanion a meini prawf llwyddiant.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • deall sut i lunio barnau o ran cyflawni nodau, amcanion a meini prawf llwyddiant.

Asesu
Ar ôl dethol eu pwnc, gall dysgwyr naill ai lunio project ymchwil ysgrifenedig (Opsiwn A) neu arteffact (Opsiwn B). Arteffact yw gwrthrych y mae dysgwr wedi ei wneud, fel prototeip, cyfansoddiad cerddorol, stori fer neu ddyluniad. Nid oes dim cyfyngiad bron ar yr hyn a all gael ei ystyried yn arteffact, cyn belled â bod ymchwil yn greiddiol iddo.

Bydd yn ofynnol i ddysgwyr wneud y canlynol:

- llunio project ymchwil (gweler Atodiad B am ragor o fanylion)

(**84 marc**)

Dylai dysgwyr dreulio tua **75 awr** yn cwblhau'r dasg hon.

- llunio hunanwerthusiad

(**12 marc**)

Dylai dysgwyr dreulio tua **5 awr** yn cwblhau'r dasg hon.

Meithrin Sgiliau Mewnblanedig

Drwy gwblhau'r Project hwn, bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu a dangos eu **sgiliau llythrennedd, sgiliau rhifedd** a **sgiliau digidol**.
Mae natur y Project Unigol yn galluogi dysgwyr i lunio deilliant sy'n berthnasol iddyn nhw ac felly mae gan ddysgwy reolaeth dros ba sgiliau mewnblanedig y maent yn eu defnyddio wrth gwblhau eu hasesiadau.

Cysylltiadau ag agenda datblygiad cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru (Cyd-destunau Dysgu)

Erbyn i ddysgwyr gyrraedd y Project Unigol, byddai'r cyd-destunau dysgu wedi dod yn adnodd naturiol i'r dysgwyr ei ddefnyddio fel man cychwyn. O ganlyniad, wrth archwilio testun priodol i'w ymchwilio ar gyfer eu project ymchwil ysgrifenedig neu arteffact, efallai byddai archwilio agenda datblygiad cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru o fudd i ddysgwyr.

© WJEC CBAC Ltd.

Cynllun Marcio

Tasg 1: Llunio Project Ymchwil

Cymhwyso sgiliau Cynllunio a Threfnu

Dyfarnwch 0 i unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Sgiliau penodol a ddangoswyd	Tystiolaeth a Awgrymir	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
Nodi teitl a rhesymeg y project. (1.1)	Teitl a rhesymeg	Mae teitl a rhesymeg y project yn annelwig ac nid oes rhesymu clir i nodi pam y dewiswyd y project.	Mae teitl a rhesymeg y project yn ceisio esbonio ffocws a chwmpas y project, ond efallai na fydd agweddau arnynt yn glir neu wedi'u cyfiawnhau'n llawn.	Mae teitl y project a rhesymeg glir a rhesymegol yn cynnig rhesymu gwybodus fel ffocws a chwmpas sylfaenol y project.	Mae teitl y project a rhesymeg fanwl wedi'i rhesymu'n dda yn cynnig esboniad llawn o ffocws a chwmpas y project ag amrywiaeth o resymau a thystiolaeth i gefnogi'r detholiad a wnaed.	/4
Pennu nodau ac amcanion priodol a realistig. (1.2)	Nodau ac amcanion	Efallai nad yw'r nodau a'r amcanion bob amser yn briodol a/neu'n realistig.	Mae'r rhan fwyaf o'r nodau a'r amcanion yn glir ac yn briodol, ond efallai nad ydynt bob amser yn realistig neu wedi'u fframio'n effeithiol.	Mae'r nodau a'r amcanion yn briodol, yn glir, wedi'u fframio'n effeithiol ac yn realistig.	Mae'r nodau a'r amcanion yn briodol, yn rhesymegol ac yn realistig iawn.	/4
Diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant. (1.6)	Cofnodion y cyfarfod cyntaf â'r goruchwyliwr	Caiff rhai blaenoriaethau a/neu feini prawf llwyddiant eu disgrifio ond nid ydynt o bosibl wedi'u cysylltu â'r Project Unigol.	Ceir rhywfaint o ddisgrifiad o'r blaenoriaethau a'r meini prawf llwyddiant, ond efallai nad oes digon o eglurder neu fanylion, ac efallai nad yw pob rhan ohono yn briodol.	Mae'r blaenoriaethau a'r meini prawf llwyddiant yn briodol ac wedi'u diffinio'n glir. Maent yn realistig ac yn galluogi'r dysgwr i gyflawni a mesur llwyddiant y rhan fwyaf o agweddau ar ei Broject Unigol.	Mae'r blaenoriaethau a'r meini prawf llwyddiant yn briodol iawn, yn fanwl ac wedi'u diffinio'n glir. Maent yn realistig iawn ac yn galluogi'r dysgwr i gyflawni a mesur llwyddiant pob agwedd ar ei Broject Unigol.	/4
Cynllun priodol ac ymchwil perthnasol. (1.3)	Cynllun Project / Cynllun ymchwil	Nid yw'r dull ymchwil yn cynnwys gwaith cynllunio ystyrlon, nid yw'n briodol ac nid yw'n berthnasol o ran dethol gwybodaeth gynradd ac eilaidd.	Cynllun ymchwil clir ar gyfer dethol gwybodaeth gynradd ac eilaidd ond nid yw'r holl wybodaeth yn briodol ac yn berthnasol.	Cynllun ymchwil manwl ac effeithiol ar gyfer dethol gwybodaeth gynradd ac eilaidd sy'n briodol ac yn berthnasol.	Cynllun ymchwil cynhwysfawr ac effeithiol iawn ar gyfer dethol gwybodaeth gynradd ac eilaidd sy'n briodol ac yn berthnasol.	/4

© WJEC CBAC Ltd.

Sgiliau penodol a ddangoswyd	**Tystiolaeth a Awgrymir**	**Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol**				
		1	**2**	**3**	**4**	**Marciau a roddwyd**
Rheoli adnoddau, amserlenni a risgiau posibl. (1.8)	Cynllun Project/ Cynllun ymchwil/ cofnod datblygu/ cofnodion y cyfarfod cyntaf â'r goruchwyliwr	Caiff adnoddau, amserlenni a risgiau eu disgrifio ond nid ydynt o bosibl wedi'u cysylltu â'r Project Unigol.	Ceir rhywfaint o ddisgrifiad penodol o adnoddau, amserlenni a risgiau posibl y Project Unigol, ond efallai nad oes digon o fanylion ac na fydd rhywfaint ohono'n briodol.	Ystyriwyd y broses o reoli'r adnoddau, yr amserlenni a'r risgiau posibl sy'n ymwneud yn benodol â'r Project Unigol.	Rhoddir ystyriaeth drylwyr i'r broses o reoli'r adnoddau, yr amserlenni a'r risgiau posibl sy'n ymwneud yn benodol â'r Project Unigol.	/4
Rheoli a blaenoriaethu gwaith. (1.9)	Cynllun Project/ Cynllun ymchwil/ cofnod datblygu/ cofnodion cyfarfod cyntaf yr ymgeisydd a'r goruchwyliwr	Nid yw'r dull ar gyfer rheoli a blaenoriaethu gwaith yn gyson. Gall fod tystiolaeth fod gwaith wedi cael ei ruthro neu ei fod yn anghyflawn.	Mae rhai agweddau ar y project yn dangos tystiolaeth o reoli a blaenoriaethu gwaith.	Ceir tystiolaeth o reoli a blaenoriaethu gwaith yn effeithiol.	Ceir tystiolaeth o reoli a blaenoriaethu gwaith yn effeithiol iawn.	/4
					Cyfanswm y Marciau	**/24**

© WJEC CBAC Ltd.

Cymhwyso sgiliau Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau

Dyfarnwch 0 i unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Sgiliau penodol a ddangoswyd	Tystiolaeth a Awgrymir	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
Cymhwyso dulliau i ddatrys problemau cymhleth, yn cynnwys technegau ymchwil i gasglu gwybodaeth gynradd ac eilaidd. (2.2)	Cynllun ymchwil/ cofnod datblygu	Ceir ymgais gyfyngedig i ddefnyddio dulliau i ddatrys problemau. Mae diffyg amrywiaeth o ran technegau ymchwil ac mae'n bosibl mai dim ond gwybodaeth gynradd neu eilaidd gyfyngedig y bydd y dysgwr wedi'i chasglu.	Ceir rhywfaint o ddefnydd o ddulliau i ddatrys problemau sy'n cynnwys dethol technegau ymchwil i gasglu gwybodaeth gynradd ac eilaidd, ond gall fod ansawdd un ohonynt yn gyfyngedig.	Defnydd effeithiol o ddulliau i ddatrys problemau cymhleth sy'n cynnwys amrywiaeth o dechnegau ymchwil i gasglu amrywiaeth briodol o wybodaeth gynradd ac eilaidd.	Defnydd effeithiol iawn o ddulliau i ddatrys problemau cymhleth sy'n cynnwys amrywiaeth gynhwysfawr o dechnegau ymchwil i gasglu amrywiaeth eang o wybodaeth gynradd ac eilaidd.	/4
Dethol gwybodaeth briodol drwy werthuso hygrededd yn feirniadol ac adnabod tuedd a thybiaethau. (2.3)	Cynllun Ymchwil/ prif gorff[1]/ cofnod datblygu	Mae rhywfaint o'r wybodaeth a ddetholwyd yn briodol i'r pwnc dan sylw, ond efallai bod rhannau ohoni yn amherthnasol. Efallai nad oes unrhyw gyfeiriadau at hygrededd, tuedd a/neu dybiaethau.	Mae'r holl wybodaeth a ddetholwyd yn briodol ar gyfer y pwnc dan sylw. Caiff cyfeiriadau at hygrededd, tuedd a/neu dybiaethau eu disgrifio, ond o bosibl byddant yn gyffredinol ac ni fyddant wedi'u gosod mewn cyd-destun.	Dethol gwybodaeth briodol sy'n dangos gwerthusiad o hygrededd, tuedd a thybiaethau yn effeithiol ar gyfer y rhan fwyaf o ffynonellau.	Dethol gwybodaeth briodol sy'n dangos gwerthusiad beirniadol cynhwysfawr o hygrededd, tuedd a thybiaethau yn effeithiol iawn ar gyfer pob ffynhonnell.	/4
Gwneud defnydd cywir o ddull academaidd o gyfeirnodi. (2.6)	Prif gorff/ rhestr gyfeirio	Rhoddir tystiolaeth o ffynonellau ymchwil ond nid yw'n dangos dull academaidd o gyfeirnodi.	Mae elfennau o gyfeirnodi academaidd yn amlwg, ond efallai nad ydynt yn gyson a bydd nifer o hepgoriadau.	Defnydd effeithiol a chywir o ddull academaidd o gyfeirnodi â mân hepgoriadau yn unig.	Defnydd effeithiol, cyson a chywir iawn o ddull academaidd o gyfeirnodi heb unrhyw hepgoriadau.	/4

© WJEC CBAC Ltd.

Sgiliau penodol a ddangoswyd	Tystiolaeth a Awgrymir	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
Dadansoddi gwybodaeth gymhleth a chynnig pwyntiau allweddol (2.4).	Prif gorff/ cofnod datblygu	Cynigir disgrifiad naratif neu restr o'r pwyntiau heb unrhyw ddadansoddiad.	Mae rhywfaint o ymgais i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth. Fodd bynnag, nid yw'n parhau ym mhob rhan. Mae'n bosibl y caiff rhai pwyntiau allweddol eu codi ond nid ymhelaethir arnynt.	Dangosir dadansoddiad effeithiol o wybodaeth gymhleth sy'n nodi amrywiaeth o bwyntiau allweddol sy'n berthnasol i'r pwnc.	Dadansoddiad effeithiol iawn o wybodaeth gymhleth sy'n nodi amrywiaeth eang o faterion, pwyntiau a chysyniadau allweddol mewn ffordd soffistigedig.	/4
Cyfosod gwybodaeth gynradd ac eilaidd sy'n cynnwys barnau, safbwyntiau a dadleuon eraill. (2.5)	Prif gorff/ cofnod datblygu	Cyflwynir gwybodaeth gynradd ac eilaidd ond ni chaiff ei chyfosod. Prin yw'r ystyriaeth a roddir i farn, safbwyntiau a dadleuon eraill, os o gwbl.	Ceir rhywfaint o ymdrech i gyfosod gwybodaeth gynradd ac eilaidd. Rhoddir rhywfaint o ystyriaeth i farn, safbwyntiau a dadleuon eraill.	Caiff gwybodaeth gynradd ac eilaidd ei chyfosod yn llwyddiannus ac mae'n cynnwys amrywiaeth o farnau, safbwyntiau a dadleuon amgen.	Caiff gwybodaeth gynradd ac eilaidd ei chyfosod mewn ffordd gynhwysfawr ac mae'n ystyried amrywiaeth eang o farnau, safbwyntiau a dadleuon amgen.	/4
Ffurfio barnau dilys a chasgliadau wedi'u rhesymu. (2.9)	Prif gorff/ cofnod datblygu/ casgliad	Caiff barnau a/neu gasgliadau eu datgan ond efallai na fyddant yn ddilys neu byddant yn arwynebol.	Caiff rhai barnau perthnasol eu llunio. Caiff casgliadau eu datgan ond mae'n bosibl na fyddant yn ddilys neu na fyddant wedi'u cysylltu â nodau'r project.	Caiff barnau perthnasol wedi'u rhesymu eu llunio. Casgliadau manwl a dilys sy'n cysylltu â nodau'r project.	Caiff barnau perthnasol iawn wedi'u rhesymu'n dda eu llunio. Casgliadau cynhwysfawr, dilys wedi'u cynnal sy'n cysylltu'n effeithiol â nodau'r project.	/4
					Cyfanswm y Marciau	**/24**

© WJEC CBAC Ltd.

Cymhwyso Sgiliau Creadigrwydd ac Arloesi

Dyfarnwch 0 am unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Sgiliau penodol a ddangoswyd	Tystiolaeth a Awgrymir	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
Cynhyrchu syniadau yn annibynnol. (3.1)	Prif gorff/ cofnod datblygu	Enghreifftiau cyfyngedig o gynhyrchu syniadau yn annibynnol. Gall fod angen cymorth rheolaidd ar y dysgwr i gynhyrchu syniadau.	Ceir tystiolaeth bod rhai syniadau yn cael eu cynhyrchu'n annibynnol, ond ni fyddant o bosibl bob amser yn briodol.	Ceir tystiolaeth o gynhyrchu syniadau yn annibynnol mewn ffordd effeithiol.	Ceir tystiolaeth o gynhyrchu syniadau yn annibynnol mewn ffordd effeithiol iawn.	/4
Defnyddio meddwl creadigol i ddadansoddi gwybodaeth a syniadau. (3.4)	Prif gorff/ cofnod datblygu	Prin yw'r dystiolaeth o ddefnyddio sgiliau meddwl yn greadigol. Caiff gwybodaeth a syniadau eu disgrifio ac mae'n bosibl y byddant ar ffurf debyg i restr.	Ceir tystiolaeth bod rhywfaint o feddwl creadigol wedi'i ddefnyddio sy'n galluogi'r dysgwr i ddadansoddi rhywfaint o wybodaeth a syniadau.	Ceir tystiolaeth bod meddwl creadigol wedi'i ddefnyddio'n effeithiol sy'n galluogi'r dysgwr i ddadansoddi'r holl wybodaeth a syniadau.	Ceir tystiolaeth bod meddwl creadigol wedi'i ddefnyddio'n effeithiol iawn. Gall y dysgwr ddatblygu dadansoddiad soffistigedig o'r holl wybodaeth a syniadau.	/4
Ystyried ymarferoldeb rhoi syniadau a deilliannau ar waith. (3.5)	Prif gorff/ cofnod datblygu	Prin yw'r dystiolaeth fod ymarferoldeb rhoi syniadau a deilliannau ar waith ar gyfer y project ysgrifenedig neu'r arteffact wedi'i ystyried. Gall hyn fod wedi arwain at sawl problem wrth gyflawni'r deilliant terfynol.	Ceir rhywfaint o dystiolaeth fod ymarferoldeb rhoi syniadau a deilliannau ar waith ar gyfer y project ysgrifenedig neu'r arteffact wedi'i ystyried. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd rhai agweddau wedi cael eu hystyried. Mae hyn wedi arwain at rai problemau wrth gyflawni'r deilliant terfynol.	Drwy gydol y project ysgrifenedig neu'r arteffact, ceir tystiolaeth fod ymarferoldeb rhoi syniadau a deilliannau ar waith wedi'i ystyried mewn ffordd resymegol. Mae hyn wedi galluogi i'r deilliant terfynol gael ei gyflawni.	Drwy gydol y project ysgrifenedig neu'r arteffact, ceir tystiolaeth glir fod ymarferoldeb rhoi syniadau a deilliannau ar waith wedi'i ystyried mewn ffordd resymegol iawn. Mae hyn wedi galluogi'r dysgwr yn amlwg i gyflawni'r deilliant terfynol i safon gyson uchel.	/4
Creu cysylltiadau rhwng gwahanol wybodaeth i gefnogi deilliannau. (3.3)	Prif gorff/ cofnod datblygu	Caiff gwybodaeth ei chyflwyno ar ffurf debyg i restr, gan ddangos cysylltiadau cyfyngedig rhwng gwahanol wybodaeth. Nid oes llawer o ymdrech i gefnogi deilliannau.	Caiff rhai cysylltiadau eu creu rhwng gwahanol wybodaeth, ond efallai mai cysylltiadau cyffredinol ydynt neu nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol. Maent yn dechrau cefnogi deilliannau i raddau.	Caiff cysylltiadau perthnasol a datblygedig eu creu rhwng y wybodaeth er mwyn cefnogi deilliannau'n sylweddol.	Caiff cysylltiadau perthnasol a chreadigol iawn eu creu rhwng y gwahanol wybodaeth er mwyn cefnogi deilliannau'n llawn.	/4

© WJEC CBAC Ltd.

Sgiliau penodol a ddangoswyd	Tystiolaeth a Awgrymir	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
Archwilio, mireinio, addasu a datblygu syniadau a deilliannau priodol. (3.7)	Prif gorff/ Cofnod datblygu/ cofnodion yr ail gyfarfod â'r goruchwyliwr	Prin yw'r dystiolaeth o archwilio, mireinio, addasu a/neu ddatblygu syniadau a deilliannau priodol. Gall hyn arwain at broject sylfaenol sydd ond yn datblygu'r syniad cychwynnol mewn ffordd arwynebol.	Rhywfaint o waith i archwilio, mireinio, addasu a/neu ddatblygu syniadau a deilliannau priodol. Fodd bynnag, byddai rhagor o waith yn y maes hwn o fudd i'r project.	Gwaith effeithiol i archwilio, mireinio, addasu a datblygu syniadau a deilliannau priodol.	Gwaith effeithiol iawn i archwilio, mireinio, addasu a datblygu syniadau a deilliannau priodol iawn.	/4
Datblygu dulliau cyfathrebu arloesol sy'n briodol i'r gynulleidfa. (3.8)	Prif gorff/ Cofnod datblygu	Nid yw'r project ysgrifenedig neu'r arteffact yn arloesol ac ymddengys mai dim ond cyflwyno ffeithiau sydd yma. Efallai nad yw'r cynnwys a'r ystyr yn briodol i'r gynulleidfa.	Mae'r project ysgrifenedig neu'r arteffact yn dangos rhai elfennau arloesol. Ar y cyfan, caiff y cynnwys a'r ystyr eu cyfleu'n briodol i'r gynulleidfa.	Mae'r project ysgrifenedig neu'r arteffact yn dangos elfennau arloesol clir. Caiff y cynnwys a'r ystyr eu cyfleu'n effeithiol i'r gynulleidfa.	Mae'r project ysgrifenedig neu'r arteffact yn arloesol iawn. Caiff y cynnwys a'r ystyr eu cyfleu'n effeithiol iawn i'r gynulleidfa.	/4
					Cyfanswm y marciau	**/24**

© WJEC CBAC Ltd.

Cymhwyso Sgiliau Effeithiolrwydd Personol

Dyfarnwch 0 i unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Sgiliau penodol a ddangoswyd	Tystiolaeth a Awgrymir	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
		1	2	3	4	Marciau a roddwyd
Dangos perfformiad wrth gwblhau tasgau/gweithgareddau wrth weithio'n annibynnol. (4.3)	Cofnodion cyfarfodydd â'r goruchwyliwr	Yn ystod cyfarfodydd â'r goruchwyliwr, mae dysgwyr yn dangos perfformiad cyfyngedig mewn perthynas â chwblhau tasgau a gweithgareddau. Yn aml, nid yw'r dysgwr wedi cwblhau tasgau a gweithgareddau rhwng cyfarfodydd.	Yn ystod cyfarfodydd â'r goruchwyliwr, mae dysgwyr yn dangos rhywfaint o berfformiad effeithiol mewn perthynas â chwblhau tasgau a gweithgareddau. Mae'r dysgwr yn cwblhau rhai tasgau a gweithgareddau rhwng cyfarfodydd.	Yn ystod cyfarfodydd â'r goruchwyliwr, mae dysgwyr yn dangos perfformiad effeithiol mewn perthynas â chwblhau tasgau a gweithgareddau. Caiff y sesiynau yn aml eu harwain gan y dysgwr sy'n gallu gosod a chwblhau'r rhan fwyaf o dasgau a gweithgareddau rhwng cyfarfodydd.	Yn ystod cyfarfodydd â'r goruchwyliwr, mae dysgwyr yn dangos perfformiad effeithiol iawn mewn perthynas â chwblhau tasgau a gweithgareddau. Caiff y sesiynau bob amser eu harwain gan y dysgwr sy'n gallu gosod a chwblhau pob tasg a gweithgaredd rhwng cyfarfodydd.	/4
Dangos cyfraniad wrth gydweithio. (4.4)	Cofnodion cyfarfodydd â'r goruchwyliwr	Gall dysgwyr ei chael hi'n anodd cyfrannu at gyfarfodydd â'r goruchwyliwr. Gall fod angen cryn dipyn o anogaeth a phrociau gan eu goruchwyliwr.	Yn ystod cyfarfodydd â'r goruchwyliwr, mae dysgwyr yn gwneud rhai cyfraniadau defnyddiol. Gall fod angen elfen o brocio gan eu goruchwyliwr.	Yn ystod cyfarfodydd â'r goruchwyliwr, mae dysgwyr yn gwneud cyfraniadau ystyrlon.	Yn ystod cyfarfodydd â'r goruchwyliwr, mae dysgwyr yn gwneud cyfraniadau ystyrlon iawn.	/4
Ymateb i adborth a rhoi adborth i bobl eraill wrth gydweithio. (4.5)	Cofnodion cyfarfodydd â'r goruchwyliwr	Gall dysgwyr ei chael hi'n anodd rhoi adborth ar eu cynnydd ac ymateb i adborth gan eu goruchwyliwr. Byddant o bosibl yn ymateb mewn ffordd oddefol i syniadau a gaiff eu trafod yn ystod y cyfarfod.	Yn ystod cyfarfodydd â'r goruchwyliwr, bydd dysgwyr yn rhoi rhywfaint o adborth ar eu cynnydd ac yn ymateb i rywfaint o adborth gan eu goruchwyliwr. Maent yn gallu ymateb i rai syniadau a gaiff eu trafod yn ystod y cyfarfod.	Yn ystod cyfarfodydd â'r goruchwyliwr, mae dysgwyr yn gallu rhoi adborth clir ar eu cynnydd ac ymateb i adborth gan eu goruchwyliwr. Maent yn gallu ymateb i syniadau a gaiff eu trafod yn ystod y cyfarfod mewn ffordd briodol.	Yn ystod cyfarfodydd â'r goruchwyliwr, mae dysgwyr yn gallu rhoi adborth manwl ar eu cynnydd ac maent yn ymatebol iawn i adborth. Maent yn gallu ymateb i syniadau a gaiff eu trafod yn ystod y cyfarfod mewn ffordd graff, ystyriol a phriodol.	/4
					Cyfanswm y marciau	**/12**

© WJEC CBAC Ltd.

Tasg 2: Hunanwerthuso

Cymhwyso sgiliau Effeithiolrwydd Personol

Dyfarnwch 0 i unrhyw rai o'r sgiliau isod os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu credyd.

Sgiliau penodol a ddangoswyd	Y marciau sydd ar gael ar gyfer pob sgìl penodol				
	1	2	3	4	Marciau a roddwyd
Gwerthuso unrhyw ddeilliannau a gyflawnir mewn perthynas â nodau, amcanion a meini prawf llwyddiant. (4.8)	Ymdrech gyfyngedig i werthuso sut mae'r deilliant terfynol yn ymwneud â'r nodau, yr amcanion a'r meini prawf llwyddiant.	Rhywfaint o ymdrech i werthuso sut mae'r project ysgrifenedig neu'r arteffact yn ymwneud â'r nodau, yr amcanion a'r meini prawf llwyddiant.	Gwerthusiad effeithiol sy'n ystyried llwyddiant y project ysgrifenedig neu'r arteffact mewn perthynas â'r nodau, yr amcanion a'r meini prawf llwyddiant.	Gwerthusiad effeithiol iawn sy'n ystyried yn drylwyr lwyddiant y project ysgrifenedig neu'r arteffact mewn perthynas â'r nodau, yr amcanion a'r meini prawf llwyddiant.	/4
Myfyrio ar eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio, a'u gwerthuso. (4.6)	Mae'r gwaith myfyrio yn debyg i restr ac nid oes ôl gwerthuso.	Rhywfaint o ymdrech i werthuso eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain ond nid yw'r gwaith myfyrio o bosibl yn fanwl. Gall ymddangos yn gyffredinol yn hytrach nag yn benodol i'r project ysgrifenedig terfynol neu'r arteffact.	Proses effeithiol ac ystyriol o fyfyrio ar eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain a'u gwerthuso. Mae'r enghreifftiau yn cysylltu'n glir â'r project ysgrifenedig terfynol neu'r arteffact.	Proses effeithiol, gytbwys a chraff iawn o fyfyrio ar eu hymddygiadau a'u perfformiad eu hunain a'u gwerthuso. Mae'r enghreifftiau yn cysylltu'n glir â'r project ysgrifenedig terfynol neu'r arteffact. Mae'r enghreifftiau yn cysylltu'n glir â'r project ysgrifenedig terfynol neu'r arteffact.	/4
Adnabod meysydd i'w gwella wrth weithio'n annibynnol a/neu wrth gydweithio. (4.7)	Bydd yr hunanwerthusiad o bosibl yn ymddangos yn debyg i restr ac nid yw'r meysydd i'w gwella yn ymwneud yn glir â datblygu sgiliau drwy gydol y cwrs.	Mae'r hunanwerthusiad yn cydnabod datblygiad sgiliau'r dysgwyr drwy gydol y cwrs i ryw raddau a chaiff rhai meysydd i'w gwella eu trafod. Gall rhai ymddangos yn gyfyngedig ac yn arwynebol ac ni fyddant o bosibl yn ymwneud yn glir â datblygiad ar gyfer gwaith yn y dyfodol.	Mae'r hunanwerthusiad yn cydnabod datblygiad sgiliau'r dysgwyr drwy gydol y cwrs yn fanwl a cheir cyfiawnhad dros feysydd i'w gwella. Gwneir awgrymiadau o ran sut y gellid eu datblygu ar gyfer gwaith yn y dyfodol.	Mae'r hunanwerthusiad yn cydnabod datblygiad sgiliau'r dysgwyr drwy gydol y cwrs mewn ffordd gynhwysfawr a cheir cyfiawnhad dilys dros feysydd i'w gwella. Gwneir awgrymiadau ystyriol o ran sut y gellid eu datblygu a'u cymhwyso ar gyfer gwaith yn y dyfodol.	/4
				Cyfanswm y marciau	**/12**

© WJEC CBAC Ltd.

7. Asesiadau

7.1. Pwysoliadau Sgiliau Cyfannol

Caiff y pedwar Sgìl Cyfannol eu hasesu ym mhob Project. Fodd bynnag, er bod y Sgiliau Cyfannol wedi'u pwysoli'n gyfartal dros bob rhan o'r cymhwyster, mae pwysoliad y Sgiliau Cyfannol o fewn pob Project wedi'i bennu gan ffocws yr asesiad a'r tasgau asesu penodol. Mae'r tabl isod yn dangos sut y caiff y Sgiliau Cyfannol eu pwysoli ar draws y projectau.

	Project Cymuned Byd-eang	Project Cyrchfannau'r Dyfodol	Project Unigol	**Cyfanswm**
Cymhwyso sgiliau cynllunio a threfnu (Deilliant Dysgu 1)	5.4%	7.1%	12.5%	**25%**
DD2 Cymhwyso sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau (Deilliant Dysgu 2)	8.3%	4.2%	12.5%	**25%**
DD3 Cymhwyso creadigrwydd ac arloesi (Deilliant Dysgu 3)	4.1%	9.5%	12.4%	**26%**
DD4 Cymhwyso effeithiolrwydd personol (Deilliant Dysgu 4)	7.2%	4.2%	12.6%	**24%**
Pwysoliad y Project	**25%**	**25%**	**50%**	

7.2. Y trefniadau ar gyfer asesu'r Projectau

Caiff pob Project ei asesu a'i farcio'n fewnol gan y ganolfan a'i gymedroli'n allanol gan CBAC yn unol â'r trefniadau ar gyfer asesiadau di-arholiad a ddarperir gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ). Ewch i wefan JCQ, www.jcq.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Cyflwynir y tasgau i'w hasesu o fewn pob Project yn Adrannau 4, 5 a 6 y fanyleb hon. Gellir llwytho'r Pecynnau Asesu i Ymgeiswyr i lawr hefyd o'r wefan ddiogel. Bydd y tasgau yn aros yr un fath dros oes y fanyleb hon, fel bod lle i ddysgwyr ganolbwyntio ar faes sydd o ddiddordeb arbennig iddynt.

Paratoi ymgeiswyr ar gyfer asesiad
Gall tasgau'r project gael eu cwblhau a'u hasesu ar unrhyw adeg addas yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, rhaid rhoi'r cyfle i ymgeiswyr gaffael yr holl Sgiliau Penodol a restrir yn adran 2.1 er mwyn gallu cyrraedd yr holl farciau sy'n gysylltiedig â'r asesiad.

Rhaid rhoi copi o'r Pecyn Asesu i Ymgeiswyr ar gyfer y Project i bob ymgeisydd naill ai'n electronig neu ar ffurf copi caled. Mae'r pecynnau hyn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ymgeiswyr i gwblhau eu Project.

© WJEC CBAC Ltd.

Dylai athrawon gefnogi dysgwyr wrth ddewis cyd-destun ar gyfer pob tasg er mwyn helpu i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael cyfle i ennill marciau yn y bandiau uchaf o fewn y meini prawf asesu.

Gall athrawon hefyd gynnig arweiniad a chymorth i ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion pob Project, y tasgau asesu a'r meini prawf marcio cysylltiedig.

Cyn dechrau'r asesiad, mae'r athro'n gyfrifol am hysbysu ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn mewn ffordd annheg wrth baratoi gwaith ar gyfer Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch.

Rhaid i ymgeiswyr ddeall hefyd bod yn rhaid cyfeirnodi gwybodaeth o ffynonellau cyhoeddedig. Dylent gael arweiniad ar nodi cyfeiriadau a bod yn ymwybodol na ddylent gyflawni llên-ladrad. Dylent wybod bod copïo unrhyw ddeunydd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill a'i gyflwyno heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau roi gwybod i CBAC am unrhyw amheuon o gamymddwyn sydd ganddyn nhw.

Yr amser sydd ar gael ar gyfer asesu
Dylai dysgwyr dreulio tua 50 awr ar eu Project Cymuned Byd-eang (gan gynnwys yr isafswm o 15 awr ar gyfer cyfranogiad cymunedol), tua 40 awr ar eu Project Cyrchfannau'r Dyfodol a thua 80 awr ar eu Project Unigol.

Ni fydd angen goruchwylio'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn uniongyrchol wrth iddynt gwblhau eu hasesiad (gweler y wybodaeth isod ar ddilysu gwaith ymgeiswyr i gael rhagor o arweiniad o ran pryd y gallai fod yn briodol goruchwylio ymgeiswyr yn uniongyrchol).

Cydweithio
Ni ddylai ymgeiswyr weithio gyda'i gilydd ar unrhyw dasgau sy'n nodi'n benodol na ddylid cydweithio.

Cyngor ac arweiniad i ymgeiswyr
Fel y nodwyd yn flaenorol:

- dylai athrawon gefnogi dysgwyr wrth ddewis cyd-destun ar gyfer pob tasg er mwyn helpu i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael cyfle i ennill marciau yn y bandiau uchaf o fewn y meini prawf asesu
- gall athrawon hefyd gynnig arweiniad a chymorth i ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion pob Project, y tasgau asesu a'r meini prawf marcio cysylltiedig.

Ar ôl cychwyn ar y gwaith, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol am yr hyn i'w wella. Ni chaiff athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn.

Mae 'cyngor cyffredinol' yng nghyd-destun Projectau Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn cynnwys:

- sicrhau bod yr ymgeiswyr yn deall gofynion y dasg berthnasol, gan gynnwys y deilliant gofynnol a'r amser sydd ar gael
- sicrhau bod gan ddewis a chwmpas Project ymgeiswyr y potensial i fodloni gofynion y meini prawf marcio a'u bod yn ddigon heriol i gyflawni marciau o'r bandiau uchaf
- rhoi arweiniad ar ddefnyddio offer a defnyddiau yn ddiogel, a'r caledwedd a'r feddalwedd TGCh sydd ar gael i ymgeiswyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau asesu.

© WJEC CBAC Ltd.

Yng nghyd-destun 'cyngor cyffredinol', **ni** ddylai athrawon wneud y canlynol:

- rhoi cyngor manwl i ymgeisydd na chymryd yr awenau drwy'r broses asesu
- pennu cyd-destun ar gyfer y Project, rhaid mai penderfyniad yr ymgeisydd ei hun ydyw
- cywiro nac addasu gwaith ymgeisydd
- rhoi cyfarwyddyd penodol i ymgeisydd er mwyn iddo ennill marciau uwch
- llunio unrhyw fath o ffrâm ysgrifennu i'w defnyddio mewn gweithgareddau asesu.

Adnoddau
Wrth gwblhau eu Projectau, ni chaiff y defnydd o adnoddau, gan gynnwys y Rhyngrwyd, ei ragnodi'n gaeth a gall ymgeiswyr ddefnyddio adnoddau a all gynnwys gwybodaeth a gaiff ei chasglu y tu allan i'r ysgol/coleg, er enghraifft fel rhan o'u gweithgareddau ymchwil.

Rhaid cydnabod unrhyw gyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir yn ystod tasgau asesu, er enghraifft, mewn tystiolaeth ysgrifenedig gellir gwneud hyn drwy ddarparu llyfryddiaeth ar ffurf atodiad gan ddefnyddio system gyfeirnodi gonfensiynol o fewn y testun, neu ar ffurf troednodiadau.

Ar ôl cwblhau'r Project a chynnal yr asesiad terfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach.

Goruchwylio a monitro'r broses asesu
Rhaid i athrawon fonitro gweithgareddau asesu er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain yw'r gwaith a lliniaru'r risg y ceir unrhyw achosion o gamymdwyn.

Dylai athrawon fod yn ddigon ymwybodol o safon yr ymgeisydd a lefel ei waith i allu nodi a yw'r dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn ymddangos y tu hwnt i allu'r ymgeisydd. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, disgwylir y bydd athrawon yn gyfarwydd â gwaith ymgeiswyr drwy aseiniadau gwaith dosbarth a gwaith cartref.

Lle nad dyna'r achos, dylai athrawon ystyried ffyrdd eraill o fonitro gwaith ymgeiswyr, er enghraifft:

- ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau rhan o'r gwaith neu'r gwaith i gyd o dan oruchwyliaeth uniongyrchol
- cynnal Viva i ddilysu gwaith gan ymgeiswyr nad yw'r athrawon yn gyfarwydd â nhw
- defnyddio cyfarfodydd goruchwylio (gweler isod) er mwyn cael sicrwydd bod y gwaith yn ddilys.

Cyfarfodydd goruchwylio
Wrth gwblhau eu Project Unigol, bydd ymgeiswyr yn cael tri chyfarfod ffurfiol â'u goruchwyliwr; gall y cyfarfodydd hyn gynnig cyfle i'r goruchwyliwr fonitro a chadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd yw'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno ganddo a'i fod yn cyfeirnodi ffynonellau gwybodaeth yn briodol.
Er nad oes angen cyfarfodydd goruchwylio ffurfiol ar gyfer y Project Cymuned Byd-eang a/neu Broject Cyrchfannau'r Dyfodol, gall athrawon ddewis cynllunio a defnyddio cyfarfodydd goruchwylio fel rhan o'u trefniadau ar gyfer monitro gwaith ymgeiswyr.

Dilysu
Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd lofnodi datganiad sy'n cadarnhau gwreiddioldeb ei dystiolaeth a rhaid i'r ganolfan wrthlofnodi'r datganiad i gadarnhau ei bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn. Derbynnir llofnod electronig.

Diogelwch gwaith ymgeiswyr
Rhaid cadw gwaith ymgeiswyr yn ddiogel tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r gwaith cymedroli neu tan y bydd adolygiad o'r gwaith cymedroli neu apêl neu ymchwiliad i gamymddwyn wedi ei gwblhau, pa bynnag sydd hwyraf.

© WJEC CBAC Ltd.

Marcio
Caiff y Projectau eu marcio'n fewnol a'u cymedroli'n allanol.

Gridiau asesu ac anodiadau
Wrth asesu'r dystiolaeth ar gyfer pob Project, dylai athrawon astudio'r pedair lefel ar gyfer y Project perthnasol, sydd wedi'u cynllunio i gyflwyno system sy'n cysylltu'r Sgiliau Penodol â'r dyraniadau marciau penodol ac sy'n helpu i wahaniaethu'n glir rhwng y lefelau cyflawniad amrywiol.

Rhaid i athrawon wneud cyfeiriadau penodol at y Sgiliau Penodol yn yr anodiadau y byddant yn eu gwneud ar y gwaith ac ar adrannau perthnasol tudalen glawr y Project. Mae'n ofynnol i athrawon gofnodi marciau ar wahân ar gyfer pob adran yn y lleoedd gwag ar y grid marcio, gan nodi cyfanswm y marciau yn y blwch a ddarperir a gwneud sylw crynodol cyffredinol.

Er nad yw'n orfodol i athrawon anodi unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig, mae'n ddefnyddiol
iddynt wneud hynny er mwyn dangos ble a pham y rhoddwyd y marciau. Bydd enghreifftiau o Brojectau wedi'u cwblhau yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn gan CBAC er mwyn helpu canolfannau i nodi ansawdd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marciau amrywiol.

Safoni mewnol a chymedroli
Pan fo mwy nag un athro mewn canolfan, rhaid i waith gan bob grŵp addysgu gael ei safoni'n fewnol. Bwriedir i hyn sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu safon gytûn ar gyfer pob grŵp addysgu dan sylw. Bydd CBAC yn darparu deunydd safoni i gynorthwyo'r broses hon.

Er mwyn i'r broses gymedroli fynd rhagddi ac i'r safoni mewnol fod yn deg, bydd CBAC yn neilltuo cymedrolwr allanol i bob canolfan. Mae'n hanfodol fod y cymedrolwr yn deall natur y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r ffordd y defnyddiwyd y meini prawf i wneud asesiad terfynol. Felly, mae'r manylion sydd eu hangen ar dudalen glawr y Project a'r anodiadau a wneir yng nghorff y testun yn bwysig iawn.

Cyflwyno marciau a gweinyddu
Mae angen i ganolfannau gyflwyno marciau ar gyfer gwaith a aseswyd ar-lein ym mis Ionawr neu fis Mai y flwyddyn y bwriedir cyflwyno'r gwaith i'w gymedroli. Pan gyflwynir y marciau i CBAC, bydd y system ar-lein yn nodi sampl o ymgeiswyr y mae eu gwaith wedi'i ddethol i'w gymedroli:

- rhaid llwytho samplau i fyny i lwyfan e-Gyflwyno CBAC
- dim ond tystiolaeth gan yr ymgeiswyr a ddetholwyd ar gyfer y sampl y dylid ei llwytho i fyny
- rhaid i'r ymgeisydd a'r athro lofnodi'r dudalen glawr.

D.S. Cofiwch, rhaid dilysu gwaith pob ymgeisydd yn fewnol, nid dim ond y sampl, drwy lofnodi'r dudalen glawr.

Adborth y ganolfan
Canlyniad y gwaith cymedroli allanol fydd naill ai derbyn neu newid penderfyniadau asesu canolfan. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl o'r broses gymedroli ar ffurf adroddiadau electronig i'r canolfannau.

Rhaid i ganolfannau gadw tystiolaeth pob ymgeisydd tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r gwaith cymedroli neu tan y bydd adolygiad o'r gwaith cymedroli neu apêl neu ymchwiliad i gamymddwyn wedi ei gwblhau, pa bynnag sydd hwyraf. Rhaid gallu darparu'r dystiolaeth i CBAC os gwneir cais amdani.

Dylid cyfeirio at y llawlyfr gweinyddu a gyhoeddir bob blwyddyn am ragor o wybodaeth am gyflwyno marciau a samplau o waith ymgeiswyr, ac am y broses gymedroli allanol.

© WJEC CBAC Ltd.

8. Gwybodaeth Dechnegol

8.1. Cofrestru Canolfannau

Er mwyn cynnig y cymhwyster hwn, bydd angen i ganolfannau gofrestru â CBAC. Dylai canolfannau nad ydynt eisoes wedi'u cofrestru gyfeirio at wefan CBAC i gael rhagor o wybodaeth https://www.wjec.co.uk/home/administration/centre-information.

8.2. Cofrestru

Cymhwyster unedol yw hwn sy'n caniatáu ar gyfer elfen o asesu fesul cam.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael ym mis Ionawr a mis Mai bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd y Project Cymuned Byd-eang a Phroject Cyrchfannau'r Dyfodol ar gael at ddibenion cymedroli allanol ym mis Mai 2024 (ac ym mis Ionawr a mis Mai wedi hynny). Bydd y Project Unigol ar gael ym mis Ionawr 2025 (a phob mis Mai a mis Ionawr wedi hynny). Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2025 (a phob Gwanwyn a Haf wedi hynny).

Nodir y codau cofrestru ar gyfer pob Project yn y tabl isod. Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Teitl	Codau cofrestru	
	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
Project Cymuned Byd-eang	9503U1	9503N1
Project Cyrchfannau'r Dyfodol	9503U2	9503N2
Project Unigol	9503U3	9503N3
Codau cyfnewid Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch	9503Q0	9503C0

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru ar gyfer y fanyleb hon gydag unrhyw gymhwyster arall gan CBAC.

© WJEC CBAC Ltd.

8.3. Rheolau Ailsefyll

Caniateir un cyfle ailsefyll fesul Project i ymgeiswyr a chaiff y marc uchaf ar gyfer y Project hwnnw ei ystyried wrth bennu gradd y cymhwyster.

Ni all ymgeiswyr sy'n ailsefyll Project ailgyflwyno tystiolaeth i'w hasesu sydd eisoes wedi'i chyflwyno.

Os bydd ymgeisydd am gyflwyno un Project neu fwy drydydd tro, rhaid i'r ymgeisydd ailddechrau'r cymhwyster a chwblhau'r tri Phroject. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll y cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob Project. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o Brojectau a gwblhawyd cyn dechrau o'r newydd wrth bennu'r radd (graddau) newydd.

Os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ond ei fod yn absennol (A), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod ymgeisydd wedi cael ‘0’ marc, yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'w hasesu yn haeddu credyd; **bydd** hyn yn cyfrif fel ymgais.

© WJEC CBAC Ltd.

8.4. Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Caiff graddau'r project eu nodi fel llythyren fach a i e ar slipiau canlyniadau, ond nid ar dystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) fel ffordd o adrodd, cofnodi a phennu deilliannau asesu Projectau ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y byddant yn cwblhau'r Project. Bydd canlyniadau Projectau unigol a'r dyfarniad cyffredinol ar gyfer y cymhwyster yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster Lefel 3.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau Projectau fel a ganlyn:

			GMU y Project				
Pwysoliadau'r Project	**Uchafswm Marciau Crai**	**Uchafswm Marciau Unffurf**	**a**	**b**	**c**	d	**e**
Project Cymuned Byd-eang (25%)	72	90	72	63	54	45	36
Project Cyrchfannau'r Dyfodol (25%)	72	90	72	63	54	45	36
Project Unigol (50%)	96	180	144	126	108	90	72

Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm GMU a gyflawnir ar draws y Projectau.

			GMU y Cymhwyster					
	Uchafswm Marciau Crai	**Uchafswm Marciau Unffurf**	**A***	**A**	**B**	**C**	**D**	**E**
Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch	240	360	324	288	252	216	180	144

© WJEC CBAC Ltd.

Atodiad A Geirfa

Termau a ddefnyddir yn y fanyleb

Terminoleg	Diffiniad
Cofnod Dinesydd Gweithgar	Tystiolaeth o'r daith o'r cam cynllunio, drwy'r cam perfformio a'r cam o werthuso cyfranogiad y dysgwr yn y gweithgaredd cymunedol a ddewiswyd ganddo.
Dadansoddi	Archwilio mater yn fanwl/sut mae'r rhannau'n berthnasol i'r cyfan, esbonio a dehongli.
Arteffact	Gwrthrych sydd wedi'i wneud gan y dysgwr, fel prototeip, cyfansoddiad cerddorol, stori fer neu ddyluniad. Nid oes dim cyfyngiad bron ar yr hyn a all gael ei ystyried yn arteffact, cyn belled â bod ymchwil yn greiddiol iddo.
Cynnal	Rhoi ar waith a pharhau hyd at derfyn.
Cydweithio/Yn gydweithredol	Gweithio gydag eraill i gynhyrchu neu greu rhywbeth.
Cwblhau	Ychwanegu eitemau/gwybodaeth angenrheidiol.
Mater cymhleth	Mater y gellir ei ystyried o sawl persbectif, sydd weithiau'n cystadlu, ac y gall fod sawl ateb posibl iddo.
Datganiad Cadarnhau	Cofnod o gyfranogiad cymunedol wedi'i gwblhau gan y person cyfrifol.
Creu	Dod â rhywbeth i fodolaeth.
Cofnod datblygu	Yn amlinellu sut mae'r broses o ddylunio'r arteffact yn cael ei phennu i raddau helaeth drwy ystyried gwaith ymchwil drwy amrywiol gamau'r broses ddatblygu hyd at y deilliant terfynol.
Cymhwysedd Digidol	Y gallu i ddeall a defnyddio amrywiaeth o dechnegau digidol at amrywiol bwrpasau, mewn ffordd sy'n briodol i'r gynulleidfa.
Sgiliau Mewnblanedig	Y sgiliau rhifedd, y sgiliau llythrennedd a'r sgiliau digidol a gaiff eu datblygu drwy gydol y cymhwyster ond na chânt eu hasesu.
Gwerthuso	Defnyddio meini prawf i lunio barn, i gael syniad o faint, nifer neu werth rhywbeth.
Archwilio	Ymchwilio.
Hysbysu	Cyfleu a rhannu gwybodaeth.
Gwybodaeth	Gwybodaeth a gesglir o ymchwiliad, astudiaeth, neu gyfarwyddyd. Gall y wybodaeth gynnwys deallusrwydd, ffeithiau newyddion a data.
Sgiliau Cyfannol	Sgiliau Cynllunio a Threfnu, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Creadigrwydd ac Arloesi ac Effeithiolrwydd Personol, a gaiff eu hasesu ym mhob rhan o'r tasgau ar gyfer pob Project.
Ymchwilio	Gwneud gwaith ymchwil neu gynnal astudiaeth i bwnc neu broblem.
Cyd-destunau Dysgu	Agenda datblygiad cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r rhain yn darparu

© WJEC CBAC Ltd.

	fframwaith i ddysgwyr archwilio ac ystyried materion cymhleth sy'n ymwneud â chymdeithas, yr amgylchedd, diwylliant a'r economi.
Llythrennedd	Y gallu i gyfleu syniadau cymhleth yn ysgrifenedig ac ar lafar, gan addasu iaith a therminoleg mewn ffordd sy'n briodol i'r gynulleidfa.
Monitro	Arsylwi, gwirio neu gadw cofnod parhaus o rywbeth.
Rhifedd	Y gallu i goladu, dadansoddi a chyflwyno data/gwybodaeth rhifiadol cymhleth o amrywiol ffynonellau, gan ddethol ystyr priodol.
Amlinellu	Nodi'r prif bwyntiau/rhoi disgrifiad byr neu nodi'r prif nodweddion. Disgrifiad cyffredinol, rhagarweiniol o rywbeth sy'n canolbwyntio ar y prif nodweddion.
Cynllun Cyrchfan Cyflogaeth Personol	Datganiad ysgrifenedig sy'n datgan bwriadau, cymhellion neu safbwyntiau'r dysgwr mewn perthynas â'i gyrchfan ar gyfer y dyfodol.
Cynnig Perswadiol	Yn ymdrin â rhai pryderon allweddol sy'n ceisio argyhoeddi'r derbynnydd i weithredu'n unol â'r hyn a gynigir.
Cynllunio	Cynnig manwl ar gyfer gwneud neu gyflawni rhywbeth
Cyflwyno	Cyfathrebu mewn ffordd y gellir ei dilyn a'i deall yn glir.
Cynhyrchu	Gwneud neu weithgynhyrchu.
Myfyrio	Meddwl yn ofalus am rywbeth, ystyried rhywbeth, adolygu rhywbeth sydd wedi digwydd neu a wnaed.
Ymateb	Ateb llafar neu ysgrifenedig. Gall fod ar sawl ffurf.
Person cyfrifol	Y sawl sy'n cwblhau'r Datganiad Cadarnhau ar gyfer dysgwr sy'n gwneud ei gam gweithredu cymunedol. Dylai'r unigolyn hwn gael cyswllt uniongyrchol â'r dysgwr yn ystod y cam gweithredu cymunedol er mwyn rhoi tystiolaeth i'r aseswr o gyfraniad y dysgwr.
Risg	Y broses o ganfod, asesu a rheoli bygythiadau i broject.
Dethol	Gwneud dewis priodol o ystod o opsiynau.
Hunanasesu	Asesiad neu werthusiad o'ch hunan neu'ch gweithredoedd, eich agweddau neu'ch perfformiad.
Cyfosod	Cyfuno gwybodaeth, gwrthrychau neu syniadau.
Sgiliau Penodol	Mae pob Sgìl Cyfannol yn cynnwys nifer o sgiliau wedi'u diffinio'n glir. Maent yn cynnig sail ar gyfer pob tasg asesu.
Viva	Talfyriad o viva voce. Asesiad llafar yn hytrach nag ysgrifenedig.

© WJEC CBAC Ltd.

Atodiad B Adroddiad Ymchwil Project Unigol

Opsiwn A – project ymchwil ysgrifenedig

Cynhyrchu project ymchwil ysgrifenedig (tua 5,000 o eiriau) a fyddai'n cael ei wella drwy gynnwys amrywiaeth o ddiagramau ystadegol, tablau a lluniau. Dylai eich project gynnwys y canlynol:

- Teitl – cwestiwn neu ragdybiaeth
- Rhesymeg – cyflwyniad i'r project gan gynnwys eich rheswm dros ddethol y pwnc
- Nodau – y strategaethau i ymdrin â'r teitl
- Amcanion – y dull ar gyfer cyflawni'r nodau
- Cynllun ymchwil – amlinellu a chyfiawnhau'r dulliau ymchwil y byddwch yn eu defnyddio i ddethol amrywiaeth o wybodaeth gynradd ac eilaidd berthnasol a chredadwy
- Prif gorff y project – dadansoddi, cyfosod a chyfeirnodi'r wybodaeth a'r cysyniadau allweddol
  – cynhyrchu eich syniadau a'ch safbwyntiau eich hun
  – creu cysylltiadau rhwng y gwahanol wybodaeth
  – llunio barnau dilys drwy gydol y gwaith
- Casgliad – casgliadau wedi'u rhesymu sy'n cysylltu'n glir â nodau'r project
- Atodiad – gan gynnwys rhestr gyfeirio, cofnodion cyfarfodydd â'r goruchwyliwr

Wrth dynnu'r dystiolaeth ynghyd ar gyfer deilliant y Project Unigol, dylid ystyried y canlynol:

- Cyfathrebu cynnwys ac ystyr yn glir
- Mae cyfansoddiad y deunydd yn glir, yn gryno ac wedi'i strwythuro'n dda gyda chysylltiadau rhesymegol rhwng pwyntiau ynghyd â threfn gydlynus
- Mae'r cynnwys yn llifo ac mae'r rhesymu'n hawdd i'w ddilyn
- Mae'r cyflwyniad yn gyson
- Caiff y cyflwyniad ei wella drwy gynnwys amrywiaeth o luniau e.e. tablau, siartiau, diagramau, graffiau, lluniau, ffotograffau ac ati.

(84 marc)

Opsiwn B – datblygu arteffact

Mae angen i chi gynnal gwaith ymchwil i lywio'r broses o ddylunio a datblygu eich arteffact bwriadedig. Bydd eich project yn cynnwys dwy ran:
Rhan 1 – **adroddiad ymchwil** (tua 1,500 o eiriau) sy'n amlinellu'r strategaeth a'r gwaith ymchwil y byddwch yn ei gynnal. Gan gynnwys:

- Teitl – datganiad o fwriad
- Rhesymeg – cyflwyniad i'r project gan gynnwys eich rheswm dros ddethol y pwnc
- Nodau – y strategaethau i ymdrin â'r teitl
- Amcanion – y dull ar gyfer cyflawni'r nodau
- Cynllun ymchwil – amlinellu a chyfiawnhau'r dulliau ymchwil y byddwch yn eu defnyddio i ddethol amrywiaeth o wybodaeth gynradd ac eilaidd berthnasol a chredadwy
- Casgliad – casgliadau wedi'u rhesymu sy'n cysylltu'n glir â nodau'r project
- Atodiad – gan gynnwys rhestr gyfeirio, cofnodion cyfarfodydd â'r goruchwyliwr

© WJEC CBAC Ltd.

Rhan 2 – **cofnod datblygu** sy'n amlinellu sut mae'r broses o ddylunio'r arteffact yn cael ei phennu i raddau helaeth drwy ystyried eich gwaith ymchwil drwy amrywiol gamau'r broses ddatblygu hyd at y deilliant terfynol.
Gan gynnwys y canlynol:

- Dylunio arteffact
  – dangos y broses o ddatblygu syniadau ac ystyried dyluniadau amgen
  – llunio barnau gwybodus a dilys ar y ddylunio
  – cydnabod dylanwadau creadigol
  – cadw cofnod gweledol o'r broses ddylunio
- Datblygu arteffact
  – amlinellu'r broses o ddethol defnyddiau, technegau a phrosesau priodol i'w defnyddio i greu arteffact neu brototeip

  – llunio barnau ar y broses gynhyrchu
  – cadw cofnod gweledol o'r broses gynhyrchu gan gynnwys yr arteffact terfynol neu'r prototeip

Wrth dynnu'r dystiolaeth ynghyd ar gyfer deilliant y Project Unigol, dylid ystyried y canlynol:

- Cyfathrebu cynnwys ac ystyr yn glir
- Mae cyfansoddiad y deunydd yn glir, yn gryno ac wedi'i strwythuro'n dda gyda chysylltiadau rhesymegol rhwng pwyntiau ynghyd â threfn gydlynus
- Mae'r cynnwys yn llifo ac mae'r rhesymu'n hawdd i'w ddilyn
- Mae'r cyflwyniad yn gyson
- Caiff y cyflwyniad ei wella drwy gynnwys amrywiaeth o luniau e.e. diagramau, ffotograffau ac ati.

(84 marc)

© WJEC CBAC Ltd.

Atodiad C Mapio Sgiliau

Sgìl Cyfannol	Sgìl Penodol	Project a thasg								
		Cymuned Byd-eang				Cyrchfan y Dyfodol			Unigol	
		1a	1b	2	3	1a	1b	2	Adroddiad	Hunanwerthuso
Cymhwyso Sgiliau Cynllunio a Threfnu	1.1									
	1.2									
	1.3									
	1.4									
	1.5									
	1.6									
	1.7									
	1.8									
	1.9									
Cymhwyso Sgiliau Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	2.1									
	2.2									
	2.3									
	2.4									
	2.5									
	2.6									
	2.7									
	2.8									
	2.9									
Cymhwyso Creadigrwydd ac Arloesi	3.1									
	3.2									
	3.3									
	3.4									
	3.5									
	3.6									
	3.7									
	3.8									
Cymhwyso Effeithiolrwydd Personol	4.1									
	4.2									
	4.3									
	4.4									
	4.5									
	4.6									
	4.7									
	4.8									

© WJEC CBAC Ltd.